| |
|---|
| **Arolygiad o wasanaethau prawf yn adran Cymru Cwmni Adsefydlu Cymunedol Caint, Surrey a Sussex**<br><br>Dyddiad gwaith maes yr arolygiad: Chwefror 2019<br>Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2019 |

| | |
|---|---|
| **Sgôr gyffredinol ar gyfer adran Cymru Cwmni Adsefydlu Cymunedol Caint, Surrey a Sussex** | **Angen Gwella** |

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd Ei Mawrhydi Joseph Simpson, gyda chymorth tîm o arolygwyr a staff gweithredu, cyfathrebu a chorfforaethol. Y rheolwr sy'n gyfrifol am y rhaglen arolygu hon yw Helen Rinaldi. Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran mewn unrhyw fodd yn yr arolygiad hwn. Heb eu cymorth a'u cydweithrediad, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl.

© Hawlfraint y Goron 2019

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gov.uk.

Lle'r ydym wedi nodi gwybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manchester
M3 3FX

# Cynnwys


**Rhagair** ....................................................................................4
**Canfyddiadau cyffredinol** ....................................................................7
**Crynodeb o'r sgoriau** ....................................................................9
**Argymhellion** ....................................................................10
**Cefndir** ....................................................................11
**Ffeithiau cyd-destunol** ....................................................................13
**1. Cyflawni sefydliadol** ....................................................................14
1.1. Arweinyddiaeth .................................................................... 15
1.2 Staff .................................................................... 16
1.3. Gwasanaethau .................................................................... 19
1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau .................................................................... 22
**2. Goruchwylio achosion** ....................................................................24
2.1. Asesu .................................................................... 24
2.2. Cynllunio .................................................................... 26
2.3. Gweithredu a chyflawni .................................................................... 27
2.4. Adolygu .................................................................... 30
**4. Gwaith di-dâl a Through the Gate** ....................................................................31
4.1. Gwaith di-dâl .................................................................... 32
4.2. Through the Gate .................................................................... 34
**Atodiad 1: Methodoleg** ....................................................................37
**Atodiad 2: Canlyniadau archwiliadau: parthau dau a thri** ....................................................................38
**Atodiad 3: Model gweithredu** ....................................................................42
**Atodiad 4: Geirfa** ....................................................................47

# Rhagair

Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC) Cymru oedd un o'r tri CRC a oedd yn eiddo i Working Links tan yn ddiweddar. Yn flaenorol, fe wnaethom fynegi pryseron ynghylch gwaith mewn dau o'r sefydliadau hynny, yn ardal Swydd Gaerloyw (rhan o CRC Bryste, Swydd Gaerloyw, Gwlad yr Haf a Wiltshire) ac yn fwyaf diweddar yn CRC Dorset,
Dyfnaint a Chernyw (DDC CRC). Yn yr aroygiad hwn, daethom o hyd i rai o'r un anawsterau a oedd yn codi o fodel gweithredu Working Links a'r ymagwedd gorfforaethol.

Mae'r trefniadau perchnogaeth a llywodraethu yng Nghymru wedi newid yn sylweddol eleni, ac mae'r sefydliad mewn cyfnod o drawsnewid ar hyn o bryd. Ar ôl i'r perchennog gwreiddiol, Working Links, fynd i ddwylo'r gweinyddwyr, cymerodd Seetec gyfrifoldeb am y CRC ym mis Chwefror 2019, gan ddisgwyl trosglwyddiad i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru ar ddiwedd 2019. Enw newydd y sefydliad yw adran Cymru CRC Caint, Surrey a Sussex, y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel y CRC. Mae'r CRC yn darparu gwasanaethau prawf mewn fframwaith cyfreithiol a pholisi a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ym mis Chwefror 2019 ac felly roedd yn canolbwyntio ar oruchwylio achosion a ddigwyddodd tra'r oedd y CRC yn dal dan reolaeth ei berchnogion blaenorol. Tra bydd arolygiadau yn y dyfodol yn asesu effaith y newid perchnogion, mae'r adroddiad hwn yn anorfod yn canolbwyntio ar fodel gweithredu blaenorol Working Links. Canfuom bod hwn wedi gwreiddio'n dda (yn yr un modd â DDC CRC), ond yng Nghymru hefyd mae ethos cyfundrefnol cryf a chadarnhaol sy'n seiliedig ar wella cyfleoedd bywyd y rhai dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf ac sy'n parhau yn ystod eu hadsefydlu.

Mae ansawdd y gwaith yn well na'r hyn a adroddwyd gennym yn DDC CRC yn gynharach eleni, ond mae'n gymysg, ac mae angen gwelliant sylweddol. Rydym wedi rhoi sgôr 'Angen Gwella' i'r CRC. Y tro diwethaf y gwnaethom arolygu'r ardal CRC yn rhannol, yn 2017, fe wnaethom nodi diffygion o ran ymarfer mewn cynllunio, yn enwedig o ran y perygl o niwed a diogelu. Mae'r rhain yn amlwg o hyd.

Mae'r rheolwyr a'r staff yn deall y risgiau ac anghenion y rhai y mae'r CRC yn eu goruchwylio. Mae amrywiaeth ddigonol o wasanaethau cymunedol ac arbenigol ar waith, gan gynnwys gwasanaethau i fenywod. Mae gan staff proffesiynol lwyth gwaith trwm, ond er hynny maent yn blaenoriaethu ymgysylltu â'r rhai maent yn eu goruchwylio. Maent yn gweithio'n galed i gynorthwyo unigolion â'r heriau maen nhw'n eu hwynebu o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae arferion gwael o ran cadw cofnodion yn gyffredin.

Mae safon y gwasanaethau gwaith digyflog yn amrywio ledled Cymru, ac mae gwasanaethau Through the Gate angwn gwella drwy'r sefydliad cyfan, i fynd i'r afael â'r perygl o niwed ac i gydlynu eu gwaith ag eraill yn well.

Yn yr un modd â mannau eraill, mae gan reolwyr timau amrywiaeth eang o gyfrifoldebau, ac mae hyn yn glastwreiddio'r sylw a roddir i oruchwylio arferion. Mae angen i'r sefydliad wneud mwy i ddarparu hyfforddiant perthnasol i staff a hyrwyddo diwylliant o ddysgu a gwella.

Gyda'i ethos adsefydlu cryd ac ymrwymiad clir staff, a'r symbyliad a ddangoswyd gan arweinwyr, mae darpariaeth gwasanaethau gwell yn sicr o fewn cyrraedd y CRC hwn.



**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf

# Canfyddiadau cyffredinol

Yn gyffredinol, sgôr adran Cymru KSS CRC (y CRC) yw: **Angen Gwella**. Penderfynwyd ar y sgôr hwn drwy arolygu'r darparwr hwn mewn tri maes o'i waith, y cyfeirir atynt fel ‘parthau’. Disgrifir canfyddiadau a sgoriau dilynol y tri pharth hynny fan hyn:

## Cyflawniad sefydliadol

Mae darpariaeth prawf yng Nghymru yn fater a gedwir gan lywodraeth y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae'r agweddau datganoledig ar bolisi cymdeithasol a'r cyfreithiau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod angen i ddarparwyr prawf yng Nghymru weithio mewn ffordd gydlynol o fewn y fframwaith hwn. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i asiantaethau yng Nghymru gydweithio i fynd i'r afael â blaenoriaethau ac anghenion cymunedau Cymru. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â throseddu a chyfiawnder troseddol yng Nghymru. Mae'r rhain yn niferus ac yn amrywiol ac yn adlewyrchu'r cymysgedd cymhleth o amgylcheddau trefol/gwledig, cyfyngiadau daearyddol o ran trafnidiaeth a hygyrchedd gwasanaethau ac anghenion amrywiol pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru. Mae'r CRC yn gwbl ymroddedig i'r agenda hon.

- **Mae gan y CRC dîm arwain cryf sy'n ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau effeithiol**

  Mae'r cwmni a oedd yn berchen ar y CRC yn wreiddiol (Working Links) wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr ond mae ei fodel gweithredu'n parhau i gael ei ddefnyddio. Gweithiodd yr uwch reolwyr yn dda wrth ymdrin â'r trosglwyddiad i'r perchnogion newydd (Seetec). Mae'r rheolwyr a'r staff yng Nghymru yn deall y gwasanaeth prawf ac yn frwd dros ddarparu gwasanaethau prawf o safon.

  Mae'r model gweithredu wedi ei ddylunio i gefnogi ymagwedd wedi ei phersonoli a'i seilio ar gryfderau i helpu'r rhai sy'n destun goruchwyliaeth i gyflawni nodau adsefydlu, ond ni chyflawnir hyn bob amser.

- **Mae adnoddau staff darbodus ar bob lefel wedi rhwystro cynnydd o ran darparu gwasanaethau o safon**

  Mae pwysau o ran llwyth gwaith y staff yn dwysau'r heriau o ran darparu gwasanaethau o safon yn gyson. Mae hyn yn arbennig o gymhleth i'r timau llai o faint mewn lleoliadau gwledig.

  Mae staff yn croesawu'r cymorth sydd ar gael drwy eu rheolwyr llinell, ond nid oes gan reolwyr lleol ddigon o gapasiti i oruchwylio ansawdd y gwaith a wneir gan aelodau o'r tîm yn effeithiol. Mae nifer o staff yn adrodd nad yw'r cyfleoedd dysgu a datblygu sydd ar gael yn diwallu eu hanghenion bob amser.

- **Mae darparu gwasanaethau i gynorthwyo ag adsefydlu wedi datblygu'n dda, ac mae mecanweithiau ar waith i adolygu'r ddarpariaeth**

  Mae'r CRC yn ymgysylltu'n dda â phartneriaid strategol yng Nghymru. Mae hyn yn defnyddio llawer o adnoddau, ond mae'r buddsoddiad yn unol â nod y CRC o alluogi unigolion i gael mynediad at wasanaethau perthnasol, yn ystod y cyfnod goruchwylio ac y tu hwnt i hynny.

Mae'r CRC yn comisiynu gwasanaethau yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion ac asesiadau o effeithiolrwydd gwasanaethau.

- **Nid yw cyfleusterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn cynorthwyo ymarferwyr yn ddigonol yn eu gwaith o ddydd i ddydd**

  Mae systemau rheoli gwybodaeth yn cael eu defnyddio'n dda i ddeall perfformiad. Mae polisïau a chanllawiau ymarfer perthnasol ar waith.

  Mae'r strategaeth ystadau yn hyrwyddo cyflawni gwasanaethau mewn ffyrdd arloesol, fel canolbwyntiau cymunedol. Nid yw pob adeilad wedi cael ei uwchraddio'n foddhaol.

  Mae'r CRC yn wynebu heriau o ran TGCh, ac mae'r rhain wedi tarfu ar gynnydd o ran darparu gwasanaethau yn unol â disgwyliadau'r model gweithredu.

## Goruchwylio achosion

Yn y cyfnod yn arwain at yr arolygiad, gweithredodd y CRC y gofyniad cyfreithiol a bennwyd o'r newydd ynghylch lefelau isafswm cyswllt wyneb yn wyneb ag unigolion. Arweiniodd hyn at drosglwyddo achosion a staff o'r canolbwyntiau gweithredu i dimau cymunedol. Yn gyffredinol, mae angen rhagor o gynnydd o ran gwella natur ac amlder y cyswllt ag unigolion.

Mae ymarferwyr yn defnyddio system asesu achosion 'glas, coch, ambr, gwyrdd' (BRAG) fel dull o reoli eu hamser. Canfuom sawl achos o staff yn cynnig lefelau cyswllt uwch na'r hyn a ragwelwyd dan y system BRAG. Mae dosbarthu peryglon niwed yn gadarn.

- **Mae nifer o staff yn rhoi pwyslais ar ddarparu cymorth ymarferol a galluogi unigolion i gael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau**

  Mae staff yn ymgysylltu'n dda ag unigolion ac yn cynnig mwy na'r hyn sy'n ymddangos yn y cofnodion.

  Mae asesiadau yn canolbwyntio ar ymgysylltu ac amrywiaeth. Fodd bynnag, mae arferion cofnodi gwael yn rhy aml yn arwain at ddisgrifiadau annigonol o natur y gwaith sy'n cael ei wneud gydag unigolion.

- **Nid oedd y cynllunio ar gyfer gwaith i fynd i'r afael â'r perygl o niwed yn ddigon da mewn gormod o achosion**

  Yn aml nid oedd cynlluniau yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r ffordd orau o gadw dioddefwyr a dioddefwyr posibl yn ddiogel. Nid oedd cynlluniau'n cael eu personoli bob amser, ac nid oeddent yn adeiladu ar ffactorau amddiffynnol. Roedd cynlluniau wrth gefn yn wan.

  Mae canolbwyntiau yn hyrwyddo ymgysylltu gweithredol a chynhwysol gydag unigolion.

  Roedd gwaith i reoli diffyg cydymffurfio wedi cael ei gofnodi'n dda.

  Roedd ansawdd y gwaith adolygu cynnydd achosion yn amrywiol. Nid oedd unigolion dan oruchwyliaeth yn cael eu cynnwys yn gyson yn y gwaith o fyfyrio ar sut roedd eu risg o niwed wedi newid, neu wedi aros yr un fath.

## Gwaith di-dâl a Through the Gate

Roedd trefniadau ar gyfer gwaith di-dâl yn canolbwyntio ar ategu ymgysylltiad yr unigolyn â chydymffurfiaeth â'r ddedfryd. Roedd gwaith di-dâl yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol cyfranogwyr. Roedd dedfrydau'r llysoedd yn cael eu gweithredu'n briodol.

Nid oedd y trefniadau ar gyfer gwaith di-dâl yn mynd yn ddigon pell i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol defnyddwyr y gwasanaeth, serch hynny.

Roedd staff Through the Gate yn ymgysylltu'n dda â chleifion, ond nid oedd cynllunio adsefydlu yn canolbwyntio'n ddigonol ar faterion yn ymwneud â pherygl o niwed. Mae angen gwelliannau hefyd o ran cydlynu'r gweithgarwch adsefydlu.

# Crynodeb o'r sgoriau

| | |
|---|---|
| **Sgôr cyffredinol ar gyfer adran Cymru KSS CRC** | **Angen Gwella** |

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyflawni sefydliadol** | |
| **1.1** | **Arweinyddiaeth** | **Da** |
| **1.2** | **Staff** | **Angen Gwella** |
| **1.3** | **Gwasanaethau** | **Da** |
| **1.4** | **Gwybodaeth a chyfleusterau** | **Angen Gwella** |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **Goruchwylio achosion** | |
| **2.1** | **Asesu** | **Angen Gwella** |
| **2.2** | **Cynllunio** | **Angen Gwella** |
| **2.3** | **Gweithredu a chyflawni** | **Angen Gwella** |
| **2.4** | **Adolygu** | **Angen Gwella** |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **Gwaith penodol i'r CRC** | |
| **4.1**[1] | **Gwaith di-dâl** | **Angen Gwella** |
| **4.2** | **Through the Gate** | **Annigonol** |

[1] Mae agweddau'r CRC ar waith parth tri wedi eu rhestru yn Safonau Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi fel 4.1 a 4.2. Mae'r rhai ar gyfer y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi eu rhestru fel 3.1 a 3.2.

## Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolygiad, rydym wedi gwneud chwe argymhelliad, a fydd (yn ein barn ni), o'u gweithredu, yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y gwasanaethau prawf yn adran Cymru KSS CRC.

**Dylai adran Cymru KSS CRC:**

1. reoli llwyth gwaith staff yn well, a darparu digon o staff i ddarparu gwasanaethau yn unol â'r bwriad
2. gwella ansawdd gwaith cynllunio i fynd i'r afael â'r perygl o niwed a diogelu
3. darparu hyfforddiant a datblygu sy'n cwrdd ag anghenion staff a monitro effaith hyfforddiant ar ymarfer
4. galluogi rheolwyr tîm i ddarparu goruchwyliaeth reoli effeithiol o ymarfer
5. gwella'r gwaith o gydlynu'r gweithgarwch adsefydlu.

**Dylai KSS CRC:**

6. sicrhau bod yr holl adeiladau a'r TGCh o gymorth i staff allu darparu gwasanaethau effeithiol.

# Cefndir

## Esboniad o wasanaethau prawf

Mae tua 260,000 o oedolion yn cael eu goruchwylio gan y gwasanaethau prawf yn flynyddol.[2] Mae gwasanaethau prawf yn goruchwylio unigolion sy'n treulio gorchmynion cymunedol, yn darparu gwasanaethau adsefydlu i droseddwyr tra maent yn y carchar (yn arwain at y cyfnod y cânt eu rhyddhau) ac yn goruchwylio am leiafswm o 12 mis yr holl unigolion sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar.[3]

I warchod y cyhoedd, mae staff y gwasanaeth prawf yn asesu ac yn rheoli peryglon troseddwyr i'r gymuned. Maent yn helpu i adsefydlu'r unigolion hyn drwy ddelio â phroblemau fel camddefnyddio cyffuriau ac alcohol a diffyg cyflogaeth neu lety, er mwyn lleihau'r posibilrwydd o aildroseddu. Maent yn monitro a yw unigolion yn cydymffurfio â gofynion llys, er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at eu dedfryd. Os bydd troseddwyr yn methu â chydymffurfio, bydd staff prawf fel arfer yn rhoi gwybod i'r llysoedd amdanynt neu'n gwneud cais am eu galw yn ôl i'r carchar.

Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth Prawf Cyhoeddus, corff sy'n eiddo i'r cyhoedd, ynghyd â 21 o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol sy'n eiddo preifat ac sy'n darparu gwasanaethau dan gontract. Mae'r llywodraeth yn bwriadu newid y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau prawf, ac mae wedi rhoi gwybod i'r CRC am ei bwriad i derfynu eu cytundebau'n gynnar - erbyn mis Hydref 2020. Ar hyn o bryd, mae'n ystyried modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau prawf, yn dilyn ymarfer ymgynghori.

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cynghori'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ynghylch dedfrydu pob troseddwr, ac yn rheoli'r rhai sydd mewn perygl uchel neu uchel iawn o niwed difrifol, neu sy'n cael eu rheoli dan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA). Mae CRC yn goruchwylio'r rhan fwyaf o droseddwyr eraill sydd mewn perygl isel neu ganolig o niwed.

## Adran Cymru KSS CRC

Trosglwyddwyd perchnogaeth y CRC i Seetec ym mis Chwefror 2019. Cyn hynny, roedd y CRC yn eiddo i Working Links, cwmni preifat a gaffaelwyd gan Aurelius yn 2016. O gofio bod y newid perchnogaeth wedi digwydd dridiau cyn i'r arolygiad hwn ddechrau, trefniadau Working Links oedd y cyd-destun ar gyfer yr arolygiad hwn. Bu'r tri CRC a oedd yn eiddo i Working Links yn gweithio ar y cyd yn unol â model gweithredu cyffredin. Roedd nifer o uwch reolwyr yn gweithio ar draws y grŵp Working Links.

Dan ofal Working Links, arweiniwyd pob CRC unigol gan gyfarwyddwr oedd â chyfrifoldeb cyffredinol dros reolaeth a pherfformiad y busnes, gyda chymorth gan ddirprwy brif swyddogion.

---

[2] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2018). Ystadegau llwyth gwaith rheoli troseddwyr, fel yr oedd pethau ar 30 Medi 2018. https://www.gov.uk/government/collections/offender-management-statistics-quarterly

[3] Mae pawb a ddedfrydwyd, am droseddau a gyflawnwyd ar ôl gweithredu *Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014*, i fwy na diwrnod ond llai na 24 mis yn y ddalfa, yn cael eu goruchwylio yn y gymuned am 12 mis ar ôl cael eu rhyddhau. Mae'n bosibl y bydd gan eraill, sy'n treulio dedfrydau hirach yn y carchar, gyfansymiau hirach o orchwyliaeth dan drwydded.

Am ragor o wybodaeth ynghylch y CRC hwn, gan gynnwys manylion am ei fodel gweithredu dan Working Links, gweler Atodiad 3 yr adroddiad hwn.

## Rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw'r arolygydd annibynnol o wasanaethau troseddwyr ifanc a phrawf yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith y gwasanaeth Troseddwyr Ifanc a phrawf gydag oedolion a phlant. Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygu. Rydym yn amlygu arferion da a gwael, ac yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth i annog gwasanaethau o safon uchel. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth, ac yn siarad yn annibynnol.

## safonau Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Rydym yn arolygu yn unol â 10 safon. Mae'r safonau hyn yn seiliedig ar fodelau a fframweithiau sefydledig, sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth, addysg a phrofiad. Maent wedi eu dylunio i yrru gwelliannau o tan ansawdd y gwaith gyda phobl sydd wedi troseddu.[4]

---

[4] Gellir dod o hyd i safonau Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yma: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/

# Ffeithiau cyd-destunol

| | |
|---|---|
| 151,788 | Cyfanswm nifer yr unigolion sy'n destun goruchwyliaeth prawf gan CRC ledled Cymru a Lloegr[5] |
| | |
| 8,899 | Nifer yr unigolion dan oruchwyliaeth CRC Cymru[5] |
| | |
| 47.9% | Cyfran wedi ei haddasu o ddefnyddwyr gwasanaethau CRC Cymru lle ceir prawf o aildroseddu[6] |
| | |
| 77% | Cyfran yr unigolion y cofnodwyd eu bod wedi cwblhau eu gorchmynion cymunedol neu eu gorchmynion dedfrydau gohiriedig yn llwyddiannus ar gyfer CRC Cymru. 79% oedd y ffigur perfformio ar gyfer Cymru a Lloegr gyfan, o gymharu â tharged o 75%[7] |
| | |
| 68% | Cyfran y deilliannau cydymffurfio cadarnhaol gyda thrwyddedau, a lle bo'n briodol, cyfnodau goruchwylio ôl-ddedfryd ar gyfer CRC Cymru. 71% oedd y ffigur perfformio ar gyfer Cymru a Lloegr gyfan, o gymharu â tharged o 65%[8] |
| | |
| 92% | Cyfran y lefelau cwblhau cadarnhaol o ofynion gwaith di-dâl ar gyfer CRC Cymru. 89% oedd y ffigur perfformio ar gyfer Cymru a Lloegr gyfan, o gymharu â tharged o 90%[9] |

[5] Ystadegau Llwyth Achosion Rheoli Troseddwyr ar 30 Medi 2018, y Weinyddiaeth Gyfiawnder

[6] Proven reoffending, Payment by results, carfan Ionawr - Mawrth 2017, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ionawr 2019

[7], Lefel Gwasanaeth 8 y CRC, Ystadegau Chwarterol Perfformiad Cymunedol, Gorffennaf 2017 – Medi 2018, chwarter 2, y Weinyddiaeth Gyfiawnder

[8] Metrig sicrwydd J y CRC, Ystadegau Chwarterol Perfformiad Cymunedol, Gorffennaf 2017 – Medi 2018, chwarter 2, y Weinyddiaeth Gyfiawnder

[9] Lefel Gwasanaeth 10 y CRC, Ystadegau Chwarterol Perfformiad Cymunedol, Gorffennaf 2017 – Medi 2018, chwarter 2, y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# 1. Cyflawni sefydliadol

Ers cyfnod cynnar yn y contract, roedd Working Links yn wynebu pwysau ariannol. Arweiniodd hyn at gyfnod hir o dynhau adnoddau ymhellach fyth. Roedd arweinwyr yng Nghymru wedi eu cyfyngu gan mai prin oedd eu hawdurdod ariannol. Roedd cyfyngiadau gwario, yn bennaf yn cyfyngu ar nifer y staff, yn tarfu ar gyflawni gwaith o ansawdd uchel.

Cyrhaeddodd y pwysau ariannol ei benllanw wrth i Working Links fynd i ddwylo'r gweinyddwyr dridiau cyn i'r arolygiad ddechrau. Roedd terfynu'r contract yn golygu bod angen i uwch arweinwyr yng Nghymru (a'r perchnogion newydd, Seetec) symud yn gyflym, ac yn fedrus, i fynd i'r afael â phryderon staff, partneriaid ac unigolion ynghylch parhau i ddarparu gwasanaethau. Gwnaed hyn mewn ffordd a oedd yn tawelu pryderon pawb fod pethau'n gweithredu yn unol â'r arfer. Mae uwch staff yng Nghymru ac yn Seetec wedi sefydlogi'r sefyllfa, ac maent yn gweithio i adnewyddu'r pwyslais ar ddarparu gwasanaethau prawf effeithiol yng Nghymru. Maent yn parhau i baratoi ar gyfer adlinio gweithgareddau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r CRC yng Nghymru ar ddiwedd 2019.

Mae'r CRC hwn, ochr yn ochr ag adran Cymru y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, yn darparu gwasanaeth cenedlaethol yng Nghymru. Er bod darpariaeth prawf yn swyddogaeth a gedwir, mae'r agweddau datganoledig ar bolisi cymdeithasol a'r cyfreithiau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod darparwyr prawf yng Nghymru, ynghyd ag eraill, yn gorfod ymgysylltu ag amgylchedd strategol Cymru. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i asiantaethau yng Nghymru gydweithio i fynd i'r afael â blaenoriaethau ac anghenion cymunedau Cymru. Mae'r CRC yn gwbl ymroddedig i'r agenda hon.

**Cryfderau:**

- Mae tîm ymrwymedig, medrus a gwybodus o uwch reolwyr sydd â gweledigaeth glir ynghylch darparu gwasanaethau.
- Mae'r model gweithredu wedi gwreiddio'n dda.
- Mae partneriaethau cryf ar waith sy'n ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Mae staff wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel wedi eu personoli.

**Meysydd i'w gwella:**

- Mae staff, ar bob lefel, yn wynebu pwysau uchel o ran llwyth gwaith, ac nid oes ganddynt ddigon o gapasiti i ddarparu rheolaeth o safon uchel dros achosion yn gyson.
- Mae gallu'r rheolwyr i oruchwylio ansawdd ymarfer wedi cael ei ymestyn yn fawr.
- Er gwaethaf amrywiaeth o weithgareddau rheoli, nid yw cynlluniau gwaith ag unigolion yn mynd i'r afael yn ddigonol â materion ynghylch niwed.
- Nid yw darpariaeth TGCh yn ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn ddigonol.

| 1.1. Arweinyddiaeth | Da |
| --- | --- |
| Mae arweinyddiaeth y sefydliad yn ategu ac yn hyrwyddo cyflawni gwasanaeth ymatebol ac wedi ei bersonoli o safon uchel i bob defnyddiwr gwasanaeth. | ● |

Wrth arfer ei phwerau, creodd Llywodraeth Cymru amgylchedd strategol sy'n ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau yng Nghymru gydweithio i roi sylw i anghenion cymunedau Cymru. Yn y CRC, mae ymagwedd gydgysylltiedig at leihau aildroseddu. Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yn pennu fframwaith strategol ar gyfer lleihau achosion o aildroseddu. Mae'r ‘Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru’ yn sefydlu saith llwybr. Mae hwn yn cynnwys arweinwyr strategol ar gyfer pob llwybr, wedi eu rhannu ar draws y bartneriaeth ehangach. Mae gan Brif Weithredwr y CRC broffil uchel yn hwn, ac mae'r CRC yn arwain dau o'r llwybrau ac mae ganddo gysylltiadau priodol â'r llwybrau eraill. I ddangos yr ymrwymiad hwn, er gwaethaf cyfyngiadau o ran adnoddau, mae'r CRC yn cyllido swydd y rheolwr rhaglen ar gyfer y ‘Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru’. Mae'r rheolwr hwn yn adrodd i fwrdd IOM Cymru, sy'n adrodd ymhellach i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan.

Mae'r CRC a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru yn gweithio ar y cyd â'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd yng Nghymru. Roedd hyn wedi arwain at ymagweddau ar y cyd at waith ar droseddau cyfundrefnol, ar gyfnewid gwybodaeth â'r heddlu ac o ran cyflawni cynllun Rheoli Troseddwyr Integredig Cymru.

Mae gweledigaeth a strategaeth Working Links yn parhau i fod yn llwyfan ar gyfer Cynllun Gwasanaeth blynyddol y CRC a'r Cynllun Gwelliant Parhaus. Mae'r rhain yn amlinellu dyheadau:

1. Darparu gwasanaeth gwych
2. Bod yn fan gwaith gwych
3. Darparu twf uchelgeisiol
4. Arloesi – arloesol ond eto'n gyfrifol.

Mae model gweithredu Working Links wedi cael ei weithredu bron yn gyfan gwbl yng Nghymru. Er bod y model yn seiliedig ar ddarparu nifer o elfennau'r ddedfryd hon ar ffurf grŵp, mae uwch aelodau o staff yng Nghymru wedi trafod amrywiadau lleol i'r model. Er enghraifft, mae hyblygrwydd o ran defnyddio dewisiadau un-i-un ar gyfer cyflawni gofynion gweithgareddau cynefino ac adsefydlu lle bo'n briodol. Mae newidiadau diweddar i'r model gweithredu, fel y symudiad i gyswllt wyneb yn wyneb a newidiadau i'r canolbwyntiau gweithredol, wedi cael eu croesawu gan staff.

Mae ymdeimlad ar draws pob gradd o staff bod uchelgais cyflawni gwasanaethau yn cael ei yrru gan dargedau cytundebol a hefyd drwy ‘wneud y peth iawn’, h.y. darparu gwasanaethau effeithiol i'r rhai dan oruchwyliaeth. Pan wnaethom holi staff ynghylch eu barn ar weledigaeth a strategaeth y sefydliad i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i bob unigolyn, dim ond 24 y cant a ddywedodd bod eu gwasanaeth yn blaenoriaethu ansawdd. I nifer, nid oed hyn yn fethiant o ran gweledigaeth nac uchelgais arweinyddion CRC Cymru, ond ymdeimlad nad oedd gan y sefydliad yr adnoddau a oedd eu hangen i ddarparu gwasanaethau o safon yn unol â'r bwriad.

Mae pwysau ariannol wedi llywio a chyfyngu ar yr adnoddau sydd gan CR i ddarparu gwasanaethau. Mae rheolwyr wedi cynnal morâl staff a'u hymrwymiad i waith y sefydliad. Mae'r haenau o uwch reolwyr a rheolwyr canol wedi cael eu 'hymestyn' oherwydd eu cyfrifoldebau cyfundrefnol eang a'u hatebolrwydd am dimau mawr a llwyth gwaith trwm. Mae rhychwant y cyfrifoldeb wedi glastwreiddio eu gallu i sicrhau ansawdd yr ymarfer. Er gwaethaf hyn, mae arweinwyr CRC wedi ceisio parhau i ganolbwyntio ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. O haf 2018 ymlaen, cyflwynodd y CRC nifer o fesurau i reoli ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn well, ond nid yw'r rhain wedi cael yr effaith a fwriadwyd ar ymarfer.

Mae dealltwriaeth ddigonol o beryglon i'r sefydliad, gyda gwaith yn parhau i fynd i'r afael â phryderon neu i'w lliniaru. Mae'r risgiau a nodwyd yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfyngiadau o ran adnoddau, a'r effaith ar y berthynas rhwng staff a'r diffygion ansawdd ymarfer posibl sy'n deillio o hynny.

Mae risgiau a nodwyd yn lleol a risgiau strategol yn cael eu trafod gan uwch dîm rheoli'r CRC ac yn llywio cofrestr risg y sefydliadau. Cynhaliodd uwch reolwyr alwadau chwarterol gyda'r pennaeth sicrwydd ansawdd yn Working Links i fonitro materion risg. Mae gan y CRC gynlluniau parhad busnes ac mae'r rhain yn cael eu profi'n rheolaidd. Roedd y prawf diwethaf am ffliw pandemig ym mis Tachwedd 2018.

| 1.2 Staff | Angen gwella |
|---|---|
| Mae staff yn y sefydliad yn cael eu grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol wedi ei bersonoli o safon uchel i bawb sy'n defnyddio'r gwasanaethau. | ● |

Mae'r ymrwymiad i weithio gyda throseddwyr a'u helpu i newid yn llifo drwy'r sefydliad. Mae nifer o'r staff yn falch o'r gwasanaethau maent wedi eu darparu, er gwaetha'r cyd-destun sefydliadol heriol. Mae'r gwasanaeth yn elwa ar gyfraddau uchel o ddal gafael mewn staff. Mae staff yn wynebu llwyth gwaith heriol ac nid ydynt yn fodlon ar eu mynediad at hyfforddiant. Mae staff yn gadarnhaol ynghylch y cymorth sy'n cael ei gynnig gan reolwyr yng Nghymru, ond yn cydnabod bod y rheolwyr yn brin ac wedi eu gwasgaru'n eang. Mae'r agenda Cymru gyfan yn darparu synnwyr o berthyn i sefydliad mawr sydd mewn sefyllfa dda. Mae trosglwyddo achosion yng Nghymru yn digwydd yn ddidrafferth.

Fe wnaeth Uned Arloesiadau Cyfiawnder y CRC (a oedd yn gweithio ar draws pob un o'r tri CRC  Working Links) ddatblygu offeryn dangos llwyth gwaith sy'n awgrymu bod digon o allu i reoli'r gofynion llwyth gwaith pe bai pob swydd wedi ei llenwi. Fodd bynnag, canfyddiad y rhan fwyaf o swyddogion cyfrifol yng Nghymru (60 y cant) yw nad oes modd rheoli eu llwyth gwaith. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 56 y cant ar draws pob CRC.

Ar 10 Rhagfyr 2018, roedd y CRC yn gyfrifol am reoli 9,180 o droseddwyr. Roedd nifer cyfartalog yr achosion fesul swyddog cyfrifol yn 51.6 bryd hynny (roedd hyn yn cymharu'n gadarnhaol â'r llwyth gwaith cyfartalog o 54 ym mis Rhagfyr 2017). Y llwyth gwaith mwyaf oedd 75, gyda thros chwarter yn gofalu am 60 neu ragor o achosion. I swyddogion y gwasanaeth prawf, y llwyth gwaith trymaf oedd 152 o achosion, gydag 14 y cant o staff yn gofalu am fwy na 90 achos yr un. Mae hyn yn annerbyniol ac mae angen ei ddatrys ar frys.

Mae'r sefyllfa o ran llwyth gwaith yn fater mwy dybryd oherwydd yr angen i staff gyflenwi yn lle cydweithwyr pan nad ydynt ar gael, e.e. oherwydd salwch, absenoldeb mamolaeth neu swydd wag. Ym mis Medi 2018, roedd cyfanswm diffyg capasiti staff (swyddi gwag, absenoldebau mamolaeth a salwch) tua 11 y cant o'r cyflenwad o staff.

Mae rheolwyr yn cydnabod nad yw rhai aelodau o staff yn cytuno â'r darlun a gyflwynir gan yr offeryn mesur llwyth gwaith. Yn benodol, mae staff o'r farn nad yw'r model adnoddau yn ddigon cydnerth i fynd i'r adael ag absenoldebau staff. Fe wnaethom sylwi bod y diffyg cydnerthedd a nodir gan yr offeryn mesur llwyth gwaith yn waeth mewn timau gwledig sydd â niferoedd isel o staff, ac sy'n fwy agored i faterion yn gysylltiedig â chapasiti o ganlyniad.

Dywedodd un aelod o staff,

> *"Byddai pawb ohonom yn hoffi rhagor o amser, ond rwy'n dal i ymfalchïo yn y gwaith rwy'n ei wneud, ac fy mod i'n gwneud gwaith da".*

I rai, mae'r sefyllfa yn anghynaladwy. Dywedodd sawl un wrthym eu bod yn teimlo bod y cyfan yn ormod iddynt, a'u bod o'r farn nad yw'r perygl o niwed yn eu llwyth gwaith yn cael ei reoli'n ddigon da. Canfuom fod hyn i'w weld yn y diffygion ymarfer a nodwyd o ran mynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â pherygl o niwed.

Mae gan reolwyr brosesau i ail-leoli staff ar draws yr ardal i lenwi bylchau dros dro. Mae cyflenwi diffygion mewn lefelau staffio yn arwain at 'drosiant' mawr yn llwyth gwaith y CRC, gyda tharfu'n effeithio ar staff ac unigolion hefyd. Yn ein sampl, roedd gan draean o achosion ddau swyddog cyfrifol ac roedd gan 11 y cant dri neu ragor o swyddogion cyfrifol. Mae hyn yn uwch na'r ffigur cyfartalog cenedlaethol o 9 y cant, ar sail ein harolygiadau o CRC hyd yn hyn.

Mae prinder uwch reolwyr a rheolwyr canol. Mae rheolwyr canol yn cyfeirio at eu llwyth gwaith trwm. Maent yn cael eu hymestyn ac nid ydynt yn gallu neilltuo digon o amser i faterion yn ymwneud ag ansawdd ymarfer. Prin yw'r adnoddau cymorth corfforaethol sydd ar gael iddynt. Wrth i'r contract Working Links ddod i ben, mae bylchau ehangach yn y gwasanaethau cymorth i fusnesau. Mae amrywiaeth cyfrifoldebau'r rheolwyr hyn yn cynnwys rheoli staff, rheoli perfformiad, trosolwg o ymarfer a gwasanaethu partneriaethau lleol. Mae ganddynt gyfrifoldebau hefyd dros adeiladau lleol ac iechyd a diogelwch.

Mae rheolwyr tîm yn brofiadol, ond mae'n anodd i staff gysylltu â rheolwyr timau pan nad ydynt yn yr un swyddfa. Er gwaethaf hyn, mae staff o'r farn bod rheolwyr tîm yn hygyrch, yn hawdd mynd atynt ac yn wybodus. Mae staff yn gwerthfawrogi goruchwyliaeth ac mae'r mwyafrif yn sôn am gydbwysedd da o ran cynnwys yr oruchwyliaeth. Mae'n mynd i'r afael â materion o ran perfformiad ac ymarfer. Nododd tri chwarter y staff a arolygwyd eu bod yn cael goruchwyliaeth sy'n gwella ac yn cynnal gwaith o ansawdd da gydag unigolion. Mae canfyddiadau ein harolygiad yn awgrymu bod goruchwyliaeth yn gryfach o ran cefnogi staff yn eu gwaith nag o ran dylanwadu ar ansawdd yr ymarfer.

Mae'r ymagwedd gyffredinol at reoli ansawdd yn seiliedig ar y system a grëwyd gan Uned Arloesi Cyfiawnder Working Links. Mae hyn yn cynnwys arsylwadau ar ymarfer, archwilio achosion a system adborth (sy'n cael eu disgrifio fel Dolenni Dysgu). Mae strwythurau a phrosesau ar waith i gysylltu'r rolau sy'n rhan o reoli ansawdd. Mae amserlen fanwl rheoli timau sy'n disgrifio'r amrywiaeth o weithgareddau i'w cyflawni. Ers haf 2018, bu'n ofynnol i bob rheolwr tîm archwilio wyth achos y mis gan eu tîm.

Mae'r ymagwedd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol o ran arferion gorfodi, ond nid yw ansawdd cynllunio dedfrydau wedi gwella'n sylweddol.

Yn fwy diweddar, mae'r trefniadau arolygu cymheiriaid dan Dysgu Cymru wedi bod ar waith. Mae sawl aelod o staff yn feirniadol o'r broses hon, gan fod adborth o adolygiadau cymheiriaid gan gydweithwyr yn yr un swyddfa yn gallu achosi tensiynau.

Mae'r CRC yn elwa ar grŵp staff medrus a phrofiadol ar y cyfan. Dywedodd bron y cyfan (95 y cant) o'r staff a gyfwelwyd bod ganddynt y sgiliau, y gallu a'r wybodaeth sydd ei hangen i oruchwylio eu llwyth gwaith.

Roedd gan Working Links ymagwedd gorfforaethol at hyfforddiant staff, yn seiliedig ar eDdysgu yn bennaf. Mae darpariaeth dysgu a datblygu eang, ond prin yw'r hyfforddiant wyneb yn wyneb a chyfleoedd cynefino oherwydd cyfyngiadau ariannol. Mae uwch reolwyr yn adolygu materion yn gysylltiedig â hyfforddiant ond mae gwybodaeth reoli ynghylch effaith hyfforddiant ar ymarfer yn gyfyngedig. Mae rheolwyr CRC yn monitro nifer y rhai sy'n mynd i ddigwyddiadau hyfforddi, ond nid lefelau bodlonrwydd na sut mae hyfforddiant yn cael ei gymhwyso'n ymarferol.

Nid yw llawer o staff yn hoffi hyfforddiant ar-lein, ond mae rhai wedi cwblhau pob cyfle ar-lein a oedd ar gael. Dywedodd un ohonynt,

> *“Mae'n teimlo fel hyfforddiant 'ticio'r blychau'. Rydych chi'n darllen y deunydd, yn ateb y cwestiynau, yn cael y sgôr, ac yn symud ymlaen - ychydig iawn o wybodaeth sy'n cael ei chadw. Nid yw hyn yn arwain at ddealltwriaeth ddyfnach, ac nid oes unrhyw beth yn aros yn y cof yn y tymor hir, mewn gwirionedd”.*

Mae rheolwyr yn cyfeirio at y ffaith nad yw rhai aelodau o staff bob amser yn ystyried gweithdai maent yn cymryd rhan ynddynt fel hyfforddiant.

Nid oedd y ddarpariaeth hyfforddiant yn cwrdd yn llawn ag anghenion aelodau newydd o staff. Fe wnaethom siarad â'r aelodau newydd o staff a ddywedodd wrthym nad oeddent wedi cael sesiynau cynefino na hyfforddiant ffurfiol. Dywedodd un ei bod hi wedi cael llyfryn ‘Gateway to Work’ i'w lenwi, ynghyd â llwyth achosion o 65 achos. Nid oedd hi wedi gweithio i'r gwasanaethau prawf yn flaenorol, ac roedd hi'n dibynnu ar ewyllys da cydweithwyr yn ei thîm i'w helpu hi i ddeall y pethau sylfaenol.

Roedd y mwyafrif o'r staff a arolygwyd (63 y cant) o'r farn nad oedd eu mynediad at hyfforddiant wrth weithio yn ddigonol i ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau o safon uchel. Roedd cyfran debyg o staff yn teimlo nad oedd y sefydliad yn hyrwyddo nac yn gwerthfawrogi diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus. Yn gyffredinol, roedd staff yn esbonio'r diffygion hyn drwy ddweud nad oedd ganddynt yr amser i allu cymryd rhan mewn hyfforddiant, neu nad oedd ffurf yr hyfforddiant – eDdysgu yn bennaf – yn diwallu eu hanghenion.

Mae'r CRC wedi cadw at ymrwymiad i hyfforddi staff prawf drwy'r Cymhwyster Proffesiynol mewn Prawf (PQiP). Ar hyn o bryd mae deg aelod o staff yn ymgymryd â hyfforddiant/wedi eu clustnodi. Mae cwricwlwm hyfforddi ar gyfer staff sy'n gweithio gyda menywod sy'n droseddwyr. Mae hyn yn cael ei fonitro gan yr hyrwyddwyr menywod ym mhob LDU.

Mae uwch reolwyr yn weladwy ac yn ymatebol, ond nid oes strwythur cyson ar gyfer ymgysylltu â staff. Ni fu arolwg staff ers 2015. Cafodd cynlluniau i gynnal arolwg ar ddiwedd 2018 eu hoedi oherwydd ansicrwydd ynghylch canlyniadau penderfyniadau Working Links i barhau â'r contract. Er bod rheolwyr ym mhob un o'r LDU yn

ymdrechu i gadw golwg fanwl ar bryderon staff , mae absenoldeb arolwg staff wedi ei ddiweddaru yn cyfyngu ar ddealltwriaeth y CRC o lefelau bodlonrwydd staff.

Gan adeiladu ar arolwg o swyddogion prawf yn 2018, cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda swyddogion prawf i gael syniad o'u safbwyntiau. Arweiniodd yr adborth at argymhellion ar gyfer gweithredu. Cydnabu rheolwyr nad oedd modd iddynt weithredu ar nifer o'r rhain oherwydd y cyfyngiadau o ran adnoddau.

Rheolwyr mewn cyfarfodydd gweithredol LDU yn trafod pryderon staff ac yn ceisio datrys problemau wrth iddynt ddod i'r fei. Cofnodion goruchwylio archwiliadau uwch reolwyr a chyfarfodydd tîm. Fodd bynnag, nid oes system ar gyfer casglu data am ganfyddiadau staff.

Mae'r CRC wedi bod mewn anghydfod gyda'r undebau am nifer o flynyddoedd. Mae'r undebau wedi cytuno i ddod yn ôl i gyfarfodydd ers i'r newid i berchnogaeth Seetec a chyfarfodydd ag undebau llafur gael eu hailsefydlu.

Dywedodd ychydig yn llai na hanner y staff a gafodd eu cyfweld (44 y cant) eu bod yn teimlo nad oedd digon o sylw yn cael ei roi i ddiogelwch a llesiant staff. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys diffyg llwybr dianc o ystafelloedd cyfweld mewn rhai swyddfeydd. Dywedodd staff wrthym fod absenoldeb llinellau ffôn tir yn golygu fod yn rhaid i staff fewngofnodi i Skype os oes angen iddynt gysylltu ag unrhyw un.

Roedd nifer o staff yn croesawu'r hyblygrwydd sy'n gysylltiedig â'r gallu i weithio gartref.

Roedd tri chwarter y staff a oedd angen addasiadau rhesymol i'w gwaith yn teimlo fod hynny wedi cael ei wneud.

| 1.3. Gwasanaethau | Da |
|---|---|
| Mae amrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau o safon uchel ar waith, sy'n ategu gwasanaeth ymatebol ac wedi ei deilwra ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth. | ● |

Mae nifer o'r gwasanaethau cofleidiol sydd eu hangen i weithio gydag unigolion yn cael eu comisiynu yng Nghymru. Canolbwyntir yn gryf ar ymgysylltu â'r strwythurau lleol a chenedlaethol yng Nghymru sy'n mynd i'r afael ag aildroseddu.

Er mwyn helpu i gyflawni ei nodau, mae'r CRC yn gweithio ar y cyd ag eraill yng nghyd-destun Cyfiawnder Troseddol Cymru. Mae'r CRC wedi gosod ei hun fel partner allweddol, yn hytrach na dim ond darparwr arall. Ymysg pethau eraill, mae'r CRC yn darparu dealltwriaeth weithredol i ddylanwadu ar ddatblygu polisi ar lefel genedlaethol. Mae gan y CRC broffil uchel mewn cyrff strategol allweddol. Mae hyn yn cynnwys Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan. Mae llwybrau lleihau aildroseddu Llywodraeth Cymru wedi eu halinio i waith y Bwrdd hwn.

Mae strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid y CRC yn alinio â threfniadau llywodraethu ehangach Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS). Mae sawl agwedd ar y cyd-destun cyfreithiol yn unigryw i Gymru. Mae Deddfau Cenedlaethau'r Dyfodol ac Iechyd a Llesiant Cymru yn ychwanegu at yr angen i gofleidio darparu gwasanaethau mewn cyd-destun Cymru gyfan.

Mae'r CRC wedi datblygu fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gydag ymrwymiad clir i waith partneriaeth. Gwelir hyn drwy amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys IOM Cymru, Prevent, troseddau casineb, troseddau trefnedig difrifol,

Cyfiawnder Adferol, gwasanaethau menywod, lleoliadau unigol ad-dalu'r gymuned a chanolbwyntiau cymunedol.

Mae dadansoddiad o angen Criminogenig OASys adran Cymru o KSS CRC yn amlinellu anghenion y boblogaeth droseddwyr yn CRC Cymru (yn seiliedig ar asesiadau OASys a gwblhawyd ers mis Chwefror 2015). Defnyddiwyd hyn i wneud dewisiadau seiliedig ar dystiolaeth o ran y ffordd orau i dargedu'r adnoddau gorau ar gyfer y rhai dan oruchwyliaeth.

Mae'r CRC yn dangos dealltwriaeth dda o anghenion menywod, ac mae wedi datblygu RAR penodol i fenywod. Mae strategaeth menywod y CRC yn adeiladu ar lwybr y menywod. Mae hon yn fenter partneriaeth i ategu anghenion menywod sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Sefydlwyd hyn yn 2013, ac mae'n cael ei arwain gan Wasanaeth Prawf a Charchardai Ei Mawrhydi yng Nghymru, pedwar heddlu Cymru a'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru ac amrywiaeth eang o bartneriaid eraill, yn enwedig asiantaethau'r trydydd sector sy'n canolbwyntio ar fenywod sydd eisoes yn darparu gwasanaethau lleol. Mae'r CRC yn chwarae rhan arweiniol yn y strategaeth hon, yn enwedig drwy gyd-gadeirio grŵp hyrwyddo menywod a chadeirio cynadleddau achos ar bob achos benywaidd newydd yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r CRC. Mae'r llwybrydd yn cynnwys cynllun dargyfeirio. Mae gan bob swyddfa CRC slotiau adrodd menywod yn unig.

Mewn nifer o swyddfeydd mae gwasanaethau prawf y CRC a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cael eu cydleoli â
phartneriaid y trydydd sector ac awdurdodau lleol. Mae achosion hefyd o gyd-leoli â gwasanaethau arbenigol, fel y rhai sy'n darparu cymorth trais domestig. Mae hyn yn helpu staff y CRC i gael mynediad at adnoddau ar ran unigolion.

Mae uwch arweinydd CRC yn ymgymryd â rôl rheolwr rhaglen IOM Cymru. Mae'r grwpiau llywio IOM Cymru lleol yn cael eu cadeirio ar y cyd gan bartneriaid arweiniol adran Cymru KSS CRC, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru a phedwar heddlu Cymru ar draws y rhanbarthau amrywiol. Mae swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu hefyd yn rhan o'r grwpiau llywio hyn, ynghyd â'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, y frigâd dân a'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc. Mae'r partneriaid wrthi'n adolygu'r matrics targedu, llinellau cyffuriau a throseddau a gangiau trefnedig. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys partneriaid allweddol, fel yr heddlu a llywodraeth leol, i sicrhau bod y gwasanaeth yn mynd i'r afael â blaenoriaethau strategol yng Nghymru.

Daeth Cyfiawnder Cymru i fodolaeth oherwydd y newidiadau i ddeddfwriaeth tai yng Nghymru. Mae eu hymgynghorwyr llety yn integredig â'r swyddfeydd CRC fel partner cadwyn gyflenwi a gallent gael mynediad at holl systemau gwybodaeth y CRC.

Mae'r CRC wedi llofnodi cytundeb partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac iechyd y cyhoedd i fynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â throseddau ac iechyd. Cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ymchwil yn 2016 ynghylch plant a gafodd brofiad o ddigwyddiadau trawmatig a'r cysylltiadau â'u profiadau o ran iechyd a chyfiawnder troseddol. Mae hyn wedi llywio datblygu arferion yn y CRC.

Arweiniodd partneriaeth rhwng asiantaethau iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol at ddylunio ymyriadau RAR sy'n canolbwyntio ar arferion wedi eu llywio gan drawma. Mae'r CRC yn aelod o fwrdd y rhaglen ar gyfer mynd i'r afael â phrofiadau gwael yn ystod plentyndod, ochr yn ochr â 30 o bartneriaid. Mae'r CRC yn aelod o'r bwrdd cenedlaethol Camau Cynnar gyda'n gilydd a byrddau cyflawni

rhanbarthol. Mae'r cysylltiadau hyn wedi bod yn effeithiol ac wedi helpu gyda throsglwyddo ymchwil i ymarfer.

Mae pedwar o weithgareddau RAR newydd y CRC wedi cael eu cyflwyno gerbron panel ymyriadau effeithiol Gwasanaeth Prawf a Charchardai Ei Mawrhydi er mwyn diogelu sicrwydd ansawdd ymyriadau heb eu hachredu.

Mae uned gyflawni leol (LDU) yn arwain y gwaith cysylltu â'r byrddau cyfiawnder lleol gan y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Mae gan bob arweinydd LDU arweinwyr strategol yn genedlaethol. Maent yn ymgysylltu â matrics o drefniadau strategol cenedlaethol a statudol lleol. e.e. byrddau gwasanaeth cenedlaethol, byrddau diogelu oedolion a phlant. Ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, mae trefniadau blaenoriaethu a chyflawni gwahanol. Mae'r amgylchedd partneriaeth yng Nghymru yn uchelgeisiol ac yn gymhleth, ac mae ymarfer cyfredol i resymoli mentrau presennol.

Sefydlodd y CRC gytundebau cadwyn cyflenwi cychwynnol yn 2015, sy'n parhau hyd heddiw. Y brif ddarpariaeth cadwyn gyflenwi yw gwasanaethau Through the Gate drwy Ymddiriedolaeth St Giles (carchardai dynion) a Chymru Ddiogelach (carchardai menywod). Mae'r tri chontract arall yn llai, ac yn fwy cyfyngedig eu cwmpas. Yn ogystal, mae'r CRC wedi comisiynu Crest yng ngogledd Cymru i ddarparu gwasanaethau gwaith di-dâl. Mae proses gadarn ar gyfer rheoli partneriaethau. Mae asesu risgiau o ran cyflawni gwasanaethau sy'n codi oherwydd cyfyngiadau ariannol wedi dwyn ffrwyth gan fod rhai darparwyr partneriaethau yn aros am daliad am wasanaethau a ddarparwyd, gan ddisgwyl i brosesau gweinyddu Working Links gael eu cwblhau.

Mae amrywiaeth dda o wasanaethau ar gael. Mae hyn yn cynnwys dwy raglen achrededig: y Rhaglen Sgiliau Meddwl (TSP) a Meithrin Perthynas Well (BBR). Mae dewislen o weithgareddau RAR ar gael. Mae hyn yn cynnwys Ymddygiad Caethiwus, Plant a Theuluoedd, Cydnerthedd Emosiynol, Rheoli Ymddygiad Treisgar, Perthynas Barchus ag Eraill, Ymwybyddiaeth o Droseddau a RAR Menywod.

Mae'r CRC wedi datblygu rhwydwaith o gyfleusterau adrodd (canolbwyntiau cymunedol) oddi wrth swyddfeydd prif ffrwd. Pan gynhaliwyd yr adolygiad, roedd 19 ar waith, gyda chynlluniau i ymestyn hyn i 26 ledled Cymru. Yn ystod yr arolygiad, fe wnaethom ymweld â sawl canolbwynt a chanfod gwir gryfderau yn y dull hwn o weithio. Er enghraifft, mae Hartshorn House yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei reoli gan G4S. Mae wedi ei leoli yng nghanol tref Maesteg, lle mae 41 o asiantaethau, gan gynnwys adran Cymru KSS CRC, wedi eu cyd-leoli yn yr adeilad.

Mae gwasanaethau eraill yn cynnwys Cymorth i Fenywod Pen-y-bont ar Ogwr, Ymddiriedolaeth Terrence Higgins, Hafan Cymru, Tîm Alcohol a Chyffuriau Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Camddefnyddio Alcohol a Chyffuriau Gorllewin Morgannwg, Alcoholigion Anhysbys, Shelter Cymru, Pregnancy Care, Cwnsela mewn Galar Cruse, darparwyr ETE, Change Step a Chymorth i Gyn-filwyr. Mae adrodd i Hartshorn House yn lleihau'r stigma o adrodd ar gyfer goruchwyliaeth prawf. Mae unigolion sy'n cael eu goruchwylio gan y CRC yn bresennol ochr yn ochr â'r rhai nad ydynt yn destun goruchwyliaeth. Yn ddiweddar, dywedodd Maer Maesteg ei fod yn *“ddiolchgar i'r sefydliadau ac i'r bobl yn y sefydliadau hynny sy'n rhoi eu hamser a'u hegni i gefnogi'r rhai sydd yn yr ardal leol”.*

Penodwyd pennaeth ymyriadau ym mis Mai 2018. Mae gan staff a rheolwyr ymyriadau y gallu i ddarparu gwasanaethau ymyriadau'r CRC. Mae'r model gweithredu yn cymryd yn ganiataol y bydd 80 y cant o ymyriadau yn cael eu darparu

mewn grwpiau. Mae cyfraddau ymgymryd ag ymyriadau wedi gwella, ac erbyn hyn maent wedi cyrraedd 50 y cant. Yn amlwg, mae angen rhagor o gynnydd, ac mae'r CRC wedi bodi bod rhai swyddogion cyfrifol yn gyndyn o gyfeirio at y ddarpariaeth. Y rheolwr ymyriadau sy'n monitro presenoldeb RAR.

Roedd y dedfrydwyr a arolygwyd gennym yn ystod yr archwiliad yn gadarnhaol ynghylch gwaith y CRC. Darperir gwybodaeth am berfformiad fel mater o drefn gan y CRC yng ngogledd Cymru, ac roedd modd i ddedfrydwyr roi enghreifftiau o'r wybodaeth a gafwyd. Dywedodd un ohonynt: *"Mae gennym berthynas waith dda iawn ac rydym yn fodlon iawn".*

Mae llyfryn darparu gwasanaethau'r CRC ar gael i lysoedd yn ogystal â staff y CRC a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Mae trefniadau gyda'r llysoedd yn amrywio o leoliad i leoliad. Dywedodd y grŵp bychan o ynadon y buom yn siarad â nhw bod trefniadau rhagorol ar waith ar gyfer cysylltu â dedfrydwyr yn eu hardaloedd. Roedd gwybodaeth ar gael mewn adroddiadau ac mewn ystafelloedd ymneilltuo, a byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu pe bai ei hangen.

Un o'r prif bryderon i ddedfrydwyr oedd na fyddai materion tor-amod yn cael eu dychwelyd mewn pryd. Mae'r mater hwn yn cael sylw yn awr, gydag achosion yn cael eu dychwelyd o fewn pedair wythnos i'r tor-amod ddigwydd. Canmolodd y barnwr rhanbarth waith y CRC. Roedd o'r farn bod staff y CRC yn ymatebol ac wedi rhoi'r wybodaeth roedd arno ei hangen.

Mae hanes hir o ddarparu gwasanaethau cyfiawnder adferol yng Nghymru. Mae'r CRC wedi adeiladu ar hynny ac wedi creu gwasanaeth achredig gyda'r Nod Ansawdd Gwasanaeth Adferol (RSQM). Mae'r holl staff cyfiawnder adferol wedi eu hyfforddi mewn arferion gorau ac mae'r staff yn gallu darparu gwasanaethau ledled Cymru. Mae nifer dda o staff y CRC yn defnyddio'r gwasanaethau hyn, sydd wedi cynhyrchu dros 400 o atgyfeiriadau yn 2018. Ychydig iawn o staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sydd wedi ymgymryd â gwasanaethau cyfiawnder adferol, ac mae hynny'n drueni.

| 1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau | Angen gwella |
|---|---|
| Mae gwybodaeth amserol a pherthnasol ar gael, ac mae cyfleusterau priodol ar waith i ategu ymagwedd ymatebol wedi ei phersonoli o ansawdd uchel i bob defnyddiwr gwasanaeth. | ● |

Roedd Working Links wedi datblygu systemau ar gyfer rheoli TGCh a darpariaeth ystadau, ond nid oedd y rhain yn cael eu rheoli gyda sylw digonol i brofiad y defnyddwyr yn y pen draw. Mae nifer o'r timau CRC yn parhau i fod wedi eu cyd-leoli mewn adeiladau gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, ac mae ansawdd yr adeiladau yn amrywio. Roedd rhai swyddfeydd yn fodern ac yn cynnwys yr holl gyfleusterau angenrheidiol; tra bod eraill yn adeiladau hŷn a oedd angen eu huwchraddio.

Yn y CRC mae ymrwymiad i ddefnyddio gwybodaeth, deallusrwydd ac addysg i yrru gwelliannau, ond nid oes digon o gapasiti o ran adnoddau i weithredu'r gwelliannau hyn yn llawn. Bu dau weithdy ar gyfer pob aelod o staff sy'n swyddogion cyfrifol yn ystod y flwyddyn a aeth heibio i ganlyn yr hyn a ddysgwyd yn sgil archwiliad rheoli achosion y Grŵp Sicrwydd Gweithredol a Systemau (OSAG).

Mae gwersi yn sgil troseddau pellach ac adolygiadau sylweddol eraill yn cael eu casglu a'u lledaenu drwy systemau rheoli ansawdd. Mae'r broses Dolen Ddysgu wedi cael ei defnyddio i amlygu materion sy'n codi yn sgil adolygiadau o droseddau pellach difrifol (SFO). Cedwir y rhain yn y llyfrgell gyfeirio electronig ac maent ar gael i'r holl staff.

Mae perfformiad yn unol â thargedau contractau wedi cael sylw hefyd. Mae system adrodd gynhwysfawr sy'n nodi ac yn tynnu sylw rheolwyr at ddiffygion posibl o ran targedau. Mae'r CRC wedi cwrdd â'r holl dargedau contract ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol. Mae gan bob un o'r LDU a'r canolbwyntiau gweithredol arweinydd perfformiad, sy'n gyfrifol am berfformiad. Mae'r CRC yn cysylltu mesurau perfformio â thaith y troseddwr. Mae hyn yn esbonio'r rhesymeg sy'n sail i bob metrig ac yn cysylltu ansawdd a pherfformiad yn ymarferol.

Mae staff yn cael mynediad at bolisïau a gweithdrefnau drwy fewnrwyd y CRC. Canfuom fod hyn yn gyfredol ac yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bolisïau, gweithdrefnau, prosesau, cyfeiriadau ymarfer a chanllawiau i staff. Roedd mwyafrif clir (83 y cant) o staff a arolygwyd o'r farn bod polisïau a chanllawiau'n cael eu cyfathrebu'n effeithiol.

Roedd bron i ddwy ran o dair o'r staff a arolygwyd o'r farn bod y staff cymorth systemau TGCh yn darparu gwasanaeth o safon uchel. Roeddem yn pryderu ynghylch y ddarpariaeth gyfyngedig o wasanaethau ffôn addas, yn llinellau tir a symudol, a oedd yn gwneud cyfathrebu rhwng staff ac unigolion yn anodd. Canfuom system TG nad oedd yn gweithio'n dda, gyda chysylltiadau Wi-Fi gwael a oedd yn methu'n rheolaidd. Roedd rhai aelodau o staff yn defnyddio eu ffonau symudol personol i wella cyfathrebu ag unigolion ac asiantaethau partneriaeth.

Yn y flwyddyn yn arwain at yr arolygiad, roedd systemau i wella'r gwaith o reoli ansawdd y gwasanaeth a ddarparwyd wedi cael eu rhoi ar waith. Roedd y blaenoriaethau cychwynnol yn canolbwyntio ar gofnodi, gorfodi, cynllunio dedfrydau a chynllunio gwaith rheoli risg.

Mae rheoli gwybodaeth o archwiliadau achosion yn dangos gwendid o ran adolygu'r risg o niwed. Yn neilltuol, mae hyn wedi amlygu'r ffaith nad yw cam-drin domestig a diogelu yn cael eu hadlewyrchu mewn gwaith cynllunio rheoli risg bob amser. Roedd hyn yn adleisio canfyddiadau ein hymchwiliad. Nid yw adolygiadau o achosion yn cael eu cynnal fel mater o drefn fel y mae gofyn eu cynnal. Darparwyd hyfforddiant o ran asesu, cynllunio ac adolygu ymarfer. Aethpwyd i'r afael â diffyg manylion cofnodion achosion hefyd. Fodd bynnag, mae rheolwyr canol wedi cael eu hymestyn yn ormodol i fynd ar drywydd hyn yn llawn, ac nid oes modd iddynt wirio bod y gwelliannau a nodwyd ganddynt wedi cael eu gweithredu.

Yng Nghymru, mae'r CRC a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi ymgymryd ag archwiliadau ar y cyd mewn meysydd thematig. Mae'r CRC yn parhau i ddefnyddio'r fenter hon gan Dysgu Cymru. Roeddem yn croesawu'r ffaith fod hyn yn cynnwys staff yn cynnal adolygiadau cymheiriaid o achosion. Hyd yma, nid yw gweithgareddau rheoli ansawdd wedi cael yr effaith a ddymunwyd ar ymarfer.

# 2. Goruchwylio achosion



Mae staff yn cael lefel dda o gymorth yn eu timau lleol, ond mae ganddynt lwyth gwaith trwm. Yn gyffredinol, nid yw safon cofnodi achosion yn dda. Mae cynlluniau yn aml yn ddiofal ac nid yw llawer yn mynd i'r afael a materion peryglon niwed yn ddigonol. Roedd dosbarthiadau risg o niwed yn gadarn yn gyffredinol.

Yn y cyfnod yn arwain at yr arolygiad, gweithredodd y gwasanaeth y gofyniad newydd ar gyfer lefelau lleiafswm o gyswllt wyneb yn wyneb ag unigolion. Roedd hyn wedi arwain at rywfaint o 'newid' yn y sampl a fu dan sylw gennym ni, gydag achosion a staff yn cael eu trosglwyddo allan o'r canolfannau gweithredol i dimau cymunedol. Ymdriniwyd â hyn yn dda ar y cyfan, ond mewn rhai achosion yn ein sampl fe wnaethom sylwi nad oedd y newid wedi bod yn un llyfn.

Mae nifer o staff gweithredo yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth ymarferol a galluogi unigolion i gael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau drwy gyswllt wyneb yn wyneb ac ymgysylltu cadarnhaol. Mae staff yn ymgysylltu'n dda ag unigolion, ac mae'r cyfweliadau y gwnaethom eu cynnal â swyddogion achos yn awgrymu eu bod yn cynnig rhagor na'r hyn sy'n ymddangos yn y cofnodion. Yn achos nifer o staff, mae'r pwyslais ar ddarparu, ac nid cofnodi, y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig.

| Cryfderau: |
|---|
| • Asesiadau sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu ac amrywiaeth.<br>• Mae canolbwyntiau cymunedol yn hyrwyddo ymgysylltu brwd a chynhwysol gydag unigolion. |

| Meysydd i'w gwella: |
|---|
| • Mae angen gwella ansawdd y cynlluniau gwaith i gadw dioddefwyr posibl yn ddiogel.<br>• Mae angen rhagor o gynnydd o ran gwella natur ac amlder y cysylltiad ag unigolion.<br>• Nid oedd ymweliadau â chartrefi yn cael eu defnyddio i ategu'r gwaith o reoli'r perygl o niwed yn effeithiol.<br>• Nid yw goruchwyliaeth o achosion gan reolwyr yn sicrhau bod digon o sylw yn cael ei roi i'r perygl o niwed.<br>• Mae arferion cofnodi gwael gan sawl aelod o staff wedi arwain at ddisgrifiad annigonol o natur y gwaith sy'n cael ei wneud gydag unigolion. |

| 2.1. Asesu | Angen gwella |
|---|---|
| Mae asesiadau yn seiliedig ar lawer o wybodaeth, yn ddadansoddol ac wedi eu personoli, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau mewn ffordd weithredol. | ● |

Mewn dwy ran o dair o'r achosion a arolygwyd gennym, roedd yr asesiadau'n canolbwyntio'n ddigonol ar ymgysylltu â'r unigolyn. Roedd hyn yn cynnwys swyddogion cyfrifol yn rhoi sylw priodol i gymhelliant unigolion i ymgysylltu â gofynion eu dedfrydau.

Yn yr un modd, yn y mwyafrif o achosion a archwiliwyd, roedd dadansoddiad da o anghenion unigolion o safbwynt amrywiaeth ac amgylchiadau personol. Rhoddwyd ystyriaeth briodol i sut gallai ffactorau amrywiaeth effeithio ar allu unigolyn i ymgysylltu ag ymyriadau i ategu ymataliad mewn 83 y cant o achosion. Mewn dros chwech o bob deg achos, gwelsom bod yr unigolyn wedi chwarae rhan ystyrlon yn eu hasesiad, a bod eu barn wedi cael ei hystyried.

Canfuom, mewn dros ddwy ran o dair o achosion, fod yr asesiadau'n canolbwyntio'n ddigonol ar y ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu ac ymatal. Mewn 83 y cant o achosion, roedd asesiadau'n nodi ffactorau yn gysylltiedig â throseddu; fodd bynnag, dadansoddwyd y ffactorau hynny mewn ychydig dros hanner yr achosion yn unig. Mewn bron i dri chwarter o achosion, personolwyd yr asesiad a nodwyd hynny yng nghryfderau a ffactorau diogelu'r unigolyn.

Mewn chwech o bob deg achos, roedd ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth a oedd ar gael iddynt o amrywiaeth o ffynonellau i ategu eu hasesiadau.

Canfuom ddigon o asesiadau cychwynnol o droseddu a ffactorau ymatal, o fewn cyfnod priodol, mewn tua thri chwarter o achosion. Roedd ansawdd a chywirdeb y dadansoddiad yn dioddef mewn achosion lle rhoddwyd gormod o bwyslais ar y drosedd gyfredol, ac ni roddwyd digon o sylw i ddeall troseddau blaenorol ac ymddygiad yn y gorffennol.

Roedd ansawdd y gwaith asesu a oedd yn canolbwyntio ar gadw pobl eraill yn ddiogel yn amrywio. Yn 57 y cant o'r sampl, roedd yr asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel.

Roeddem yn cytuno â mwyafrif y penderfyniadau ynghylch dosbarthu risg. Mewn tri chwarter o'r achosion a archwiliwyd, roedd y swyddog cyfrifol wedi ystyried ymddygiad ac euogfarnau yn y gorffennol wrth fyfyrio ar faterion yn gysylltiedig â lleihau niwed.

Nid oedd staff wedi ceisio gwybodaeth gan asiantaethau eraill i ategu asesiadau mewn bron i ddwy ran o dair o achosion perthnasol. Mewn amgylchiadau o'r fath, gellir colli gwybodaeth bwysig am y perygl o niwed, a gallai arwain at amddiffyniad annigonol i ddioddefwyr posibl a'u teuluoedd. Dywedodd un arolygydd:

> *"Mewn rhai achosion, mae asesiadau o risg a niwed wedi bod yn arwynebol, gyda sylw ar y drosedd gyntaf. Fe wnaethant fethu ffactorau beirniadol eraill. Mae hyn yn peri syndod, gan fod gwiriadau diogelu plant a cham-drin domestig yn cael eu cwblhau ar y cyfan ac mae'r ymateb yn gyflym, ond nid yw'r wybodaeth yn cael ei hystyried mewn asesiadau, cynlluniau ac adolygiadau bob amser".*

| 2.2. Cynllunio | Angen gwella |
| --- | --- |
| Mae cynllunio yn seiliedig ar lawer o wybodaeth, yn gyfannol ac wedi ei bersonoli, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau mewn ffordd weithredol. | |

Mewn 61 y cant o achosion a archwiliwyd gennym, canfuom fod cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar faterion ymgysylltu. Mewn tri chwarter o'r achosion, roedd gwaith cynllunio yn rhoi ystyriaeth ddigonol i barodrwydd yr unigolyn a'i gymhelliad i newid ac ymgysylltu â gofynion ei ddedfryd.

Mewn dros chwech o bob deg achos, roedd gwaith cynllunio wedi ystyried amrywiaeth ac amgylchiadau a allai effeithio ar ymgysylltu a chydymffurfio yn ddigonol. At ei gilydd, roedd staff yn dda am ymateb i anghenion amrywiaeth ac amgylchiadau unigol. Er enghraifft, gwelsom achos lle'r oedd mam â phedwar plentyn yn ei chael hi'n anodd mynd i grŵp i fenywod yn unig. Roedd y grŵp ar gael ar un diwrnod penodol yr wythnos ac nid oedd gofal plant ar gael iddi. Trefnodd y swyddog cyfrifol i ymyriadau gael eu darparu yng nghartref y teulu. Fe wnaethom nodi bod ymdrechion yn cael eu gwneud fel mater o drefn i drefnu amseroedd adrodd addas ar gyfer pobl â chyflogaeth.

Mewn 61 y cant o achosion, roeddem yn gallu gweld bod yr unigolyn wedi chwarae rhan ystyrlon yn ei gynllun, a bod ei farn wedi cael ei ystyried. Ni flaenoriaethwyd amcanion, serch hynny, ac roedd dilyniant gwaith i ategu ymatal yn gyfyngedig.

Roedd gwaith cynllunio wedi nodi sut byddai holl ofynion y ddedfryd neu'r drwydded/goruchwyliaeth ôl-ddedfryd yn cael eu cyflawni o fewn y graddfeydd amser sydd ar gael mewn bron i ddwy ran o dair o'r achosion. Mewn dros ddau o bob tri achos, roedd wedi pennu lefel, patrwm a math o gysylltiad a oedd yn ddigonol i ymgysylltu â'r unigolyn ac i ategu effeithiolrwydd ymyriadau penodol.

Canfuom, yn gyffredinol, bod yr ymyriadau cywir wedi cael eu nodi er mwyn mynd i'r afael â risg a ffactorau ymatal. Roedd gwaith cynllunio wedi canolbwyntio'n ddigonol ar ostwng aildroseddu ac ategu ymataliad yr unigolion mewn bron i ddau o bob tri achos yn sampl. Mewn dros ddau o bob tri achos, roedd wedi adlewyrchu ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu yn ddigonol ac wedi blaenoriaethu'r rhai mwyaf allweddol.

Roedd y gwaith cynllunio yn adeiladu ar gryfderau'r unigolyn ac ar ffactorau amddiffynnol mewn bron i ddau o bob tri achos perthnasol. Mewn cyfran debyg, roedd y gwaith cynllunio yn nodi'r gwasanaethau a oedd yn fwyaf tebyg o leihau aildroseddu ac ategu ymatal. Mewn bron i dri o bob pedwar achos, roedd cofnod ysgrifenedig clir o'r cynllun i leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad. Lluniwyd y cynllun yn brydlon mewn ychydig dros ddwy ran o dair o achosion.

Roedd ansawdd y gwaith cynllunio a oedd yn canolbwyntio ar gadw pobl eraill yn ddiogel yn amrywio'n sylweddol, ac roedd yn ddigonol mewn dim ond 50 (48 y cant) o'r 105 o achosion perthnasol.

Roedd cynllunio yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r ffactorau perygl o niwed ac yn blaenoriaethu'r rhai mwyaf allweddol mewn ychydig dros hanner yr achosion. Ar gyfran debyg, roedd wedi amlinellu'r ymyriadau adeiladol a/neu gyfyngol angenrheidiol i reoli'r risg o niwed. Mewn 51 y cant o achosion, roedd y cynllunio


wedi gwneud cysylltiadau priodol â gwaith asiantaethau eraill a oedd yn rhan o'r gwaith.

Dim ond mewn 46 y cant o achosion yr oedd cynllunio wedi amlinellu'r trefniadau wrth gefn angenrheidiol ac effeithiol i reoli'r risgiau a oedd wedi cael eu nodi. Roedd yn bryder mai dim ond mewn 43 y cant o'r 53 o achosion perthnasol y canfuwyd cynllunio digonol i fynd i'r afael â materion cam-drin domestig. Mewn dim ond un o bob tri o'r 33 o achosion perthnasol y canfuwyd gwaith cynllunio digonol i fynd i'r afael â materion amddiffyn plant neu ddiogelu plant.

Canfuwyd tystiolaeth o waith cynllunio digonol i fynd i'r afael â materion amddiffyn plant neu ddiogelu plant ac i gadw pobl yn ddiogel mewn ychydig dan hanner yr achosion perthnasol.

Er enghraifft, yn achos Kieran, sylwom iddo fod yn destun gorchymyn cymunedol 12 mis gyda 15 o ddiwrnodau RAR. Roedd hyn ar gyfer trosedd trefn gyhoeddus mewn cyd-destun domestig ehangach. Roedd camddefnyddio sylweddau a materion iechyd meddwl hefyd yn rhan o'r darlun. Un diffyg allweddol oedd methiant i ddadansoddi, cynllunio a darparu gwasanaeth mewn perthynas â materion trais domestig a diogelu. Roedd plentyn yn rhan o'r darlun, ond ychydig o wybodaeth a roddwyd am ei les, a chanfuom orddibyniaeth ar eiriau Kieran o ran a oedd y plentyn yn ddiogel ai peidio.

Rydym wedi nodi nifer o achosion lle nad oedd anghenion dioddefwyr posibl wedi cael sylw digonol yn y gwaith cynllunio. Roedd cofnod ysgrifenedig clir o'r cynllun i gadw pobl eraill yn ddiogel mewn 57 y cant o achosion. Er bod tystiolaeth o'u bodolaeth, roedd cynlluniau rheoli risg yn brin o fanylion ac roedd y cynllunio wrth gefn yn wael. Roedd llawer yn teimlo fel ffurfiau safonol ac yn canolbwyntio ar weithdrefnau tor-amod ac uwchgyfeirio risg yn unig.

| 2.3. Gweithredu a chyflawni | Angen gwella |
|---|---|
| Mae gwasanaethau wedi eu personoli a'u cydlynu o safon uchel, ac sy'n canolbwyntio'n dda ar y mater dan sylw, yn cael eu darparu, gan ddal sylw defnyddwyr gwasanaethau. |  |

Mae'r CRC yn gwasanaethu ardal sydd â chyfraddau trosedd is na'r cyfartaledd yn ôl cofnodion.[10] Fodd bynnag, mae tystiolaeth o nifer o ddangosyddion amddifadedd ac anghenion cymdeithasol cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys enillion a chyfraddau cyflogaeth is na'r cyfartaledd a chyfraddau uwch na'r cyfartaledd o ddiweithdra, anweithgarwch economaidd a lefelau hawlio budd-daliadau. Mae'r CRC yn gweithio ar draws pedair ardal Comisiynydd Heddlu a Throseddu a 22 o awdurdodau lleol. Mae'r gymysgedd gymhleth hon o anghenio a strwythurau yn golygu bod darparu gwasanaethau safonol yn afrealistig.

Mae ymagwedd y CRC at ddarparu gwasanaethau, gyda phwyslais ar ddarparu yn y gymuned, yn ategu teithiau ymatal unigolion. Mae defnyddio lleoliadau lleol, canolbwyntiau cymunedol, fel canolfannau darparu gwasanaethau yn helpu i

[10] Troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu fesul grŵp troseddau ac fesul ardal heddlu, Cymru a rhanbarthau Lloegr, hyd at y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2018

gyflwyno adnoddau partneriaeth sy'n hygyrch. Mae hyn yn helpu unigolion i ail-integreiddio yn y cymunedau lle maent yn byw. Mae staff yn dweud eu bod yn gallu cyfarfod â chyfranogwyr yn fwy effeithlon yn y canolbwyntiau nag mewn swyddfeydd canolog. Roedd y cyfranogwyr y buom yn siarad â nhw yn croesawu'r awyrgylch braf yn y canolbwyntiau, gyda sawl un yn cyfeirio at y stigma sy'n gysylltiedig ag adrodd mewn swyddfa brawf draddodiadol.

Mewn bron i wyth o bob deg achos, canfuom bod y ddedfryd/y cyfnod ar ôl bod yn y ddalfa wedi cael eu gweithredu'n effeithiol, gan ganolbwyntio at ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth. Yn ein sampl archwilio, roedd swyddogion cyfrifol yn dangos ymrwymiad amlwg i gynnal perthynas waith effeithiol â'r rhai roeddent yn eu goruchwylio. Mewn bron i naw o bob deg achos, gwnaed ymdrech ddigonol i alluogi'r unigolion a oedd yn destun goruchwyliaeth i gwblhau'r ddedfryd, gan gynnwys hyblygrwydd i roi cyfrif priodol am eu hamgylchiadau personol.

Mewn un achos, sylwom fod Tony, dyn 41 oed gyda hanes hir o droseddu, wedi cael dedfryd gorchymyn cymunedol am 12 mis am ladrata o siop. Roedd yr asesiad yn ystyried yr wybodaeth hanesyddol yn llawn ac yn ei defnyddio i ddatblygu darlun o anghenion Tony ochr yn ochr â'r ffactorau a oedd yn ei arwain i droseddu. Mae Tony yn ddefnyddiwr cyffuriau anhrefnus a oedd wedi cael ei ryddhau o'r ddalfa yn ddiweddar. Defnyddiodd y swyddog cyfrifol wasanaethau heddlu a chyffuriau'r IOM i ategu ymatal. Cafodd Tony lety newydd a daeth â'r berthynas i ben. Roedd y rhain yn gamau cadarnhaol ac fe wnaethant helpu Tony i fynd i'r afael â'i arferion camddefnyddio sylweddau. Roedd yr achos hwn yn brawf o ymagwedd bartneriaeth effeithiol at ategu ymatal. Mae Tony wedi sylweddoli fod ganddo gymaint i'w ennill drwy ymgysylltu â'r gwasanaethau cyffuriau a'r CRC. Ar adeg yr arolygiad, roedd Tony wedi cael pedwar mis heb aildroseddu.

Roedd risgiau methu cydymffurfio wedi cael eu nodi ac wedi cael sylw yn briodol mewn bron i dri chwarter o achosion. Roedd cofnodi barn broffesiynol briodol mewn perthynas ag apwyntiadau a gollwyd yn amlwg mewn 79 y cant o'r 112 o achosion perthnasol. Mewn dros dri chwarter o'r 71 o achosion perthnasol, cymerwyd camau gorfodi lle'r oedd hynny'n briodol.

Mewn bron i naw o bob deg achos, gwnaed ymdrechion digonol i ail-ymgysylltu â'r unigolion ar ôl camau gorfodi neu eu hadalw i'r carchar.

Roedd gweithredu a chyflawni'r gwasanaethau yn ategu ymatal mewn ffordd effeithiol mewn dwy ran o dair o'r achosion a arolygwyd gennym. Ar gyfradd debyg, y gwasanaethau a ddarparwyd oedd y rhai a oedd yn fwyaf tebygol o leihau aildroseddu ac ategu ymatal. Mewn bron i dri o bob pedwar achos yn ein sampl, roedd darparu'r gwasanaethau wedi adeiladu ar gryfder yr unigolyn ac wedi gwella ffactorau amddiffynnol lle'r oedd hynny'n bosibl. Wrth adolygu'r achosion yn ein sampl, gofynnom i'r staff, *"Yn yr achos hwn, a oes gennych chi fynediad at amrywiaeth briodol o wasanaethau (yn rhai mewnol a rhai gan ddarparwyr wedi eu comisiynu) i gwrdd â'r anghenion a'r risgiau a nodwyd?"*; a dywedodd tri o bob pedwar ohonynt eu bod wedi gallu gwneud hynny.

Mewn 59 y cant o'r achosion a arolygwyd gennym, roedd lefel a natur y cysylltiad yn ddigonol i helpu i leihau aildroseddu ac ategu ymatal.

Roedd cynnwys sefydliadau eraill yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau wedi ei gydlynu'n ddigon da mewn bron i dri o bob pedwar achos perthnasol. Ymgysylltwyd â phobl allweddol ym mywyd yr unigolyn a fu'n destun goruchwyliaeth er mwyn ategu ymatal yn dros hanner yr achosion.

Ymgysylltwyd â gwasanaethau lleol i ategu ymatal yn ystod y ddedfryd a thu hwnt mewn ychydig dan hanner yr achosion. Mae cwmpas y cynnig i unigolion drwy'r canolbwyntiau yn amrywio ar draws yr ardal. Mae gan rai canolbwyntiau nifer o adnoddau hygyrch wrth law, naill ai'n agos neu wedi eu darparu gan asiantaethau sy'n dod i'r canolbwyntiau. Nid yw eraill yn mwynhau'r un lefel o gymorth. Gofynnom i staff, o gofio hynny, a oedd perthynas effeithiol ag asiantaethau eraill i ategu ymatal drwy fynediad at wasanaethau prif ffrwd, yn ystod y ddedfryd ac ar ôl hynny. Dywedodd bron y cyfan bod hynny'n wir.

Buon ar ymweliad â'r 'Siop Un Stop' yn Abertawe. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer menywod yn Abertawe yn golygu bod y CRC wedi ei leoli yn yr un lle â gwasanaethau cam-drin domestig Abertawe. Mae dau PSO penodol, gyda throsolwg PO, yn cynnig y gwasanaeth. Mae'r llety yn darparu amgylchedd diogel a chroesawgar. Mae'r adeilad yn cynnig mynediad at y rhyngrwyd fel bod unigolion yn gallu cael mynediad at wasanaethau ar-lein. Mae gan yr adeilad fynediad diogel ynghyd ag intercom. Mae derbynfa ar gyfer y rhai sy'n defnyddio'r CRC a'r gwasanaethau eraill i fenywod yn yr un adeilad, fel cymorth i fenywod a'r gwasanaethau cam-drin domestig. Mae nifer o ystafelloedd cyfweld fel bod modd cynnal apwyntiadau cyfrinachol gydag unigolion. Mae'r staff yn mynd i grwpiau diogelu a grwpiau pwrpasol gweithwyr y diwydiant rhyw. Maent yn cefnogi unigolion o gefndiroedd pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig a'r rhai sydd ag anghenion ieithyddol.

Fe wnaethom sylwi ar arferion da yn achos Amanda. Roedd hi wedi cael dedfryd o 12 mis o orchymyn cymunedol gyda 15 diwrnod o RAR. Y troseddau cyntaf oedd ymosodiadau yn erbyn tri aelod o'r cyhoedd a oedd wedi ceisio ymyrryd pan ddangosodd hi ymddygiad treisgar. Mae gan Amanda faterion iechyd meddwl acíwt ac mae hi wedi cael diagnosis o drawma a seicosis cymhleth. Dyrannwyd swyddog benyw i Amanda ac mae hi'n cael ei chyfarfodydd yn y ganolfan i fenywod yn unig. Cysylltodd y swyddog â'r nyrs seiciatryddol gymunedol drwy gydol y gorchymyn. Galluogodd hyn ymagwedd gydgysylltiedig at fonitro risgiau i Amanda ei hunan a'r risg i bobl eraill. Roedd asesiadau, cynllunio a gweithredu o ansawdd da, gydag adolygiadau rheolaidd ac ymatebol, yn sail i'r gwaith hwn.

Yng Nghanolbwynt Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r staff yn darparu nifer o wasanaethau yn ychwanegol at
waith sy'n canolbwyntio ar droseddau. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl a chymorth yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Yn ogystal, ceir rhaglenni meithrin i gynorthwyo â sgiliau magu plant, perthynas iach ag eraill, rhaglenni hunanhyder, rhaglenni cydnerthedd, ymwybyddiaeth ofalgar i fenywod, crefftau a chyfleoedd sgiliau eraill.

Canfuom fod gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn ategu diogelwch pobl eraill yn effeithiol mewn 59 y cant o achosion. Roedd lefel a natur y cysylltiad a gynigiwyd yn ddigonol i reoli a lleihau'r risg o niwed mewn dwy ran o dair o'r achosion. Rhoddwyd sylw digonol i amddiffyn dioddefwyr o ddifri a dioddefwyr posibl mewn dim ond 53 y cant o'r 94 o achosion perthnasol.

Gwelwyd arferion gwael yn achos Jack. Mae'n ddyn 23 oed a ddedfrydwyd i gyflawni gorchymyn cymunedol dros 12 mis gyda 10 diwrnod o RAR ac 80 awr o waith di-dâl. Y drosedd gyntaf oedd ymosodiad cyffredin yn erbyn ei bartner benyw. Cwblhawyd asesiadau cychwynnol fel ymarfer papur gan reolwr tîm i gwrdd â thargedau prydlondeb contractau. Ni chafwyd dadansoddiad o'r drosedd na'r risgiau cysylltiedig. Roedd hyn wedi arwain at gynllunio annigonol ar gyfer yr achos. Ni chynhaliwyd gwiriadau â'r gwasanaethau plant na'r heddlu. Daeth i'r amlwg yn ddiweddarach bod

plentyn Jack ar y gofrestr amddiffyn plant ac nad oedd y swyddog cyfrifol yn gwybod am hynny. Roedd y gwaith yn canolbwyntio at gwblhau gwaith di-dâl. Ni chyflawnwyd ymyriadau i leihau'r risg o ragor o ymosodiadau domestig.

Roedd cynnwys asiantaethau eraill i reoli a lleihau'r risg o niwed wedi cael ei gydlynu'n ddigon da mewn bron i ddwy ran o dair o achosion. Roedd unigolion allweddol ym mywyd yr unigolyn a oedd yn destun goruchwyliaeth wedi cael eu cynnwys er mwyn ategu'r gwaith o reoli'r risg o niwed yn effeithiol yn hanner yr achosion perthnasol.

Mewn bron i ddwy ran o dair o achosion perthnasol, ni chynhaliwyd ymweliadau â'r cartref i reoli'r risg o niwed yn effeithiol. Pan ofynnwyd, *"Yn yr achos hwn, a oedd perthynas effeithiol ag asiantaethau eraill i reoli'r risg o niwed i eraill?",* dywedodd naw o bob deg staff fod perthynas o'r fath ar waith. Fodd bynnag, canfu ein hadolygiadau o achosion fod hyn yn faes ymarfer y mae angen ei wella.

| 2.4. Adolygu | Angen gwella |
|---|---|
| Mae adolygu prosesau yn seiliedig ar lawer wybodaeth, yn ddadansoddol ac wedi ei bersonoli, gan fynd ati'n frwd i gynnwys defnyddwyr y gwasanaethau. | |

Roedd adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gynorthwyo cydymffurfiaeth ac ymgysylltu mewn dros dri chwarter yr achosion. Nid oedd deunyddiau Cymraeg i gyflawni gwaith rhaglen ar gael yn gyffredinol, gydag o leiaf un a oedd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn cymryd rhan mewn rhaglen lle gofynnodd am gymorth ychwanegol.
Roedd gan bob unigolyn sy'n siarad Cymraeg swyddog cyfrifol sy'n siarad Cymraeg yn yr achosion a welsom.

Gwelwyd addasiadau angenrheidiol i'r cynllun gwaith, i ystyried cydymffurfiaeth, ymgysylltu a rhwystrau, mewn bron i dri chwarter yr achosion perthnasol. Roedd unigolion wedi chwarae rhan ystyrlon yn y gwaith o adolygu eu cynnydd a'u hymgysylltiad mewn ychydig dros hanner o'r achosion. Roedd adolygiadau ysgrifenedig yn gofnod ffurfiol o gamau i weithredu'r ddedfryd mewn 84 y cant o'r achosion.

Nododd arolygydd fod adolygiadau'n cael eu cwblhau bob chwe mis. Enghraifft dda o adolygiad priodol oedd un lle lleihawyd y risg o lefel ganolig i lefel isel gydag esboniad da; roedd yr hen amcanion yn cael eu cau fel rhai wedi eu cyflawni (gan gynnwys gwaith di-dâl); a nodwyd amcanion newydd. Roedd hyn yn cynnwys cynnal a chadw amcanion blaenorol ac roedd yn ffordd o gymell yr unigolyn a oedd yn cael ei oruchwylio.

Roedd adolygu yn canolbwyntio'n ddigonol ar ategu ymatal mewn 74 y cant o'r achosion. Nodwyd ac ymdriniwyd â ffactorau yn gysylltiedig ag ymatal a throseddu mewn 72 y cant o achosion. Roedd ychydig dros ddwy ran o dair o'r adolygiadau yn canolbwyntio'n ddigonol ar adeiladu ar gryfderau a gwella ffactorau amddiffynnol. Fodd bynnag, cafodd adolygiadau eu llywio gan fewnbwn gan asiantaethau eraill mewn llai na hanner yr achosion. Mewn tri chwarter o achosion, canfuom fod adolygiadau ysgrifenedig yn gofnod ffurfiol o'r cynnydd tuag at ymatal.

Yn gyffredinol, roeddem o'r farn bod adolygu wedi canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel mewn dim ond 36 (54 y cant) o'r 67 o achosion perthnasol. Yn y 68 o achosion perthnasol, dim ond ychydig dros hanner yr adolygiadau a oedd wedi nodi a mynd i'r afael â newid mewn ffactorau a oedd yn gysylltiedig â'r perygl o niwed. Mewn ychydig dan hanner o'r achosion, gwnaed addasiadau i'r cynllun gwaith parhaus, er mwyn ystyried newidiadau i'r risg o niwed.

Roedd ansawdd yr adolygu'n amrywio, ac roedd nifer o swyddogion cyfrifol wedi methu â chanolbwyntio at adolygu'r materion yn gysylltiedig â'r risg o niwed. Roedd gan bron i saith o bob deg o'r achosion perthnasol adolygiadau ysgrifenedig a oedd yn gweithredu fel cofnod ffurfiol o reoli'r risg o niwed yr unigolyn.

Mewn bron i ddwy ran o dair o'r 57 o achosion perthnasol, mae adolygu'r risg o niwed wedi cael ei lywio gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â rheoli'r risg o niwed. Ni chafodd unigolion a oedd yn destun goruchwyliaeth eu cynnwys yn ddigonol yn y gwaith o archwilio a mynd i'r afael â'r risgiau o niwed a oedd wedi cael eu nodi. Roedd hwn yn fater a oedd yn peri pryder, gan ei fod yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i fyfyrio ar eu cynnydd o ran lleihau eu risg o niweidio eraill. Cafodd y rhai a oedd yn destun goruchwyliaeth, ac unigolion allweddol eraill yn eu bywydau, eu cynnwys yn ystyrlon yn y gwaith o adolygu eu risg o niwed mewn ychydig llai nag un o bob tri o achosion.

# 4. Gwaith di-dâl a Through the Gate

CRC

Mae gwaith di-dâl yn un o ofynion gorchymyn cymunedol neu orchymyn cymunedol gohiriedig. Mae unigolion yn ymgymryd â rhwng 40 a 300 awr o waith o fewn blwyddyn i'r ddedfryd. O fewn yr oriau hyn, mae cwmpas i gynnig ymyriadau addysgol a rhai sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, ar gyfer hyd at 20 y cant o'r amser, i optimeiddio'r gwaith o ddatblygu unigolion ar y cynllun.

Y CRC yw prif ddarparwr y gwasanaeth Through the Gate yng Ngharchardai Ei Mawrhydi yng Nghymru. Sefydlwyd darpariaeth Through the Gate ym mis Mehefin 2015 fel rhan ganolog o'r polisi *Trawsnewid Adsefydlu*. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar anghenion adsefydlu carcharorion y CRC a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol fel ei gilydd ac, yn lleol, mae'n cael ei ddarparu yn y carchar gan staff y CRC a staff sy'n cael eu cyflogi gan elusennau PACT, Ymddiriedolaeth St Giles a Cymru Ddiogelach.

| Cryfderau: |
|---|
| • Roedd trefniadau ar gyfer gwaith di-dal yn canolbwyntio ar gefnogi ymgysylltiad a chydymffurfiaeth yr unigolyn â'r ddedfryd ac ategu datblygiad personol.<br>• Roedd dedfrydau'r llys yn cael eu gweithredu'n briodol.<br>• Roedd carcharorion wedi cael cyfleoedd i gyfrannu at sefydlu eu hanghenion adsefydlu eu hunain, gyda chynlluniau yn ystyried amrywiaeth ac amgylchiadau personol yr unigolyn. |

| Meysydd i'w gwella: |
|---|
| • Nid oedd cynllunio adsefydlu yn canolbwyntio'n ddigonol ar anghenion adsefydlu'r cyfranogwyr, nac ar ffactorau yn gysylltiedig â throseddu ac ymatal=.<br>• Mae angen gwelliannau o ran cydlynu gweithgarwch adsefydlu yn effeithiol.<br>• Mae lefelau isel o gysylltiad rhwng swyddogion cyfrifol a charcharorion sy'n treulio eu dedfrydau yng nghynllun Through the Gate. |

| 4.1. Gwaith di-dâl | Angen gwella |
|---|---|
| Mae gwaith di-dâl yn cael ei ddarparu'r ddiogel ac effeithiol, gan ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau yn unol â disgwyliadau'r llys. | ● |

Fel rhan o'r symudiad i fodel gweithredu Working Links, gostyngodd niferoedd y staff gwaith di-dâl a chynyddodd y cyfrifoldebau. Mae salwch staff wedi gwaethygu'r pwysau o ran capasiti. Mae'r CRC yn defnyddio taliadau goramser i lenwi bylchau o ran capasiti, ond gall hyn hefyd arwain at bartïon gwaith yn cael eu canslo. Cydnabu

rheolwyr bod problemau â gwaith di-dâl, ac yn ddiweddar maent wedi rhoi adnoddau ychwanegol ar waith. Mae gorfodi gwaith di-dâl wedi bod yn drafferthus, ac mae'r CRC wedi gwella prosesau gweinyddol i gynorthwyo â hyn. Mae data perfformio yn dangos bod y sefyllfa'n gwella, gan fod cyfanswm nifer yr achosion o dynnu'n ôl rhwng Ebrill a Mehefin 2018 yn 2.3 y cant o'r holl apwyntiadau a drefnwyd. Rhwng Gorffennaf a Medi 2018, roedd y ffigur yn 1.2 y cant, a rhwng Hydref a Rhagfyr 2018 roedd yn 1.5 y cant.

Yn ddiweddar mae tîm Caerdydd wedi cyflwyno sesiwn gynefino â gwaith di-dal i fenywod yn unig. Mae darpariaeth gweithgarwch grŵp gwaith di-dâl i fenywod yn ogystal â lleoliadau mewn siopau elusen os asesir bod y risgiau'n rhai y gellir eu rheoli. Mae'r gwasanaeth i fenywod yn aml yn dibynnu ar argaeledd staff gwaith di-dâl benyw. Mae hyn yn gymysg ledled y wlad, gyda rhai timau heb oruchwylwyr gwaith di-dâl benyw.

Canfuom bod asesiadau'n canolbwyntio ar y materion allweddol sy'n berthnasol i waith di-dâl mewn 64 y cant o achosion. Roedd asesiadau yn ystyried cymhelliant a pharodrwydd unigolion i gydymffurfio â gwaith di-dâl mewn 66 y cant o achosion. Roedd asesiadau yn ystyried amrywiaeth ac amgylchiadau personol unigolion mewn 83 y cant o achosion. Roedd asesiadau yn ystyried y risg o niwed i unigolion eraill, staff neu'r cyhoedd mewn
dwy ran o dair o achosion.

Mae timau gwaith di-dâl yn darparu gwerslyfrau i unigolion mewn partneriaeth ag Addysg Oedolion Cymru. Mae gwerslyfr iechyd a diogelwch yn cael ei ddarparu yn y sesiwn gynefino, ac mae llyfrau eraill ar gael i'w defnyddio yn ystod y gorchymyn. Mae unigolion yn cwblhau gwerslyfrau yn y sesiwn gynefino ac maent yn dangos tystiolaeth o ddysgu yn ystod yr apwyntiadau tair wythnos dilynol. Maent yn cael cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol ar ôl cwblhau'r gwerslyfr yn llwyddiannus.

Roedd y trefniadau ar gyfer gwaith di-dâl yn canolbwyntio'n ddigonol ar gynorthwyo ymgysylltiad a chydymffurfiaeth yr unigolion â'r ddedfryd mewn bron i dri chwarter o'r achosion.  Roedd y gwaith a ddyrannwyd yn addas, gan roi ystyriaeth briodol i amrywiaeth ac amgylchiadau'r unigolion mewn dros wyth o bob deg achos. Roedd y trefniadau ar gyfer gwaith di-dâl yn annog ymgysylltiad yr unigolion a'u cydymffurfiaeth â'r gorchymyn mewn ychydig llai na thri chwarter yr achosion.

Roedd y trefniadau ar gyfer gwaith di-dâl yn ystyried y risg o niwed mewn 70 y cant o achosion. Mewn dros dri chwarter o'r achosion, roedd dedfryd y llys wedi cael ei gweithredu'n briodol. Dechreuodd gwaith di-dâl yn brydlon mewn bron i wyth o bob deg achos.

Roedd trefniadau ar gyfer gwaith di-dal yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i wella datblygiad personol yr unigolyn mewn ychydig dros hanner yr achosion. Mewn sawl achos, roedd u cofnodion yn brin. Ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael, barnom bod dan hanner yr achosion yn dangos bod gwaith di-dâl yn ategu ymatal drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwneud iawn ac adsefydlu.

Fe wnaeth y gwasanaeth gwaith di-dâl a gynigiwyd gan Crest gryn argraff arnom. Sefydlwyd Crest yn 1998 fel menter gymdeithasol. Dan ofal y cwmni hwn y bu'r contractau gwaith di-dâl ym Mae Colwyn am 18 mlynedd. Mae Crest yn aml yn cysylltu unigolion â gwirfoddolwyr, ac mae tua 30 y cant o unigolion sy'n gwneud gwaith di-dâl yn mynd ymlaen i weithio fel gwirfoddolwyr. Mae pedwar wedi cael swyddi taledig gyda Crest. Mae Crest yn gweithio gydag unigolion sydd ag

amrywiaeth o sgiliau a galluoedd, ac mae ganddo arbenigwr sy'n gweithio gyda phobl sydd ag anableddau dysgu.

Mewn rhai rhannau o'r wlad, dywedodd y staff wrthym fod rhwystrau o ran cyfathrebu rhwng swyddogion cyfrifol a staff gwaith di-dâl ynghylch argaeledd sesiynau, newidiadau i apwyntiadau ac adborth ar gynnydd. Dywedodd sawl swyddog cyfrifol, yn eu barn nhw, bod proses gadarn ar waith i drefnu sesiynau gwaith di-dâl, ac nad oedd hyn bob amser yn cwrdd ag anghenion unigolion.

Roedd staff gwaith di-dâl yn feirniadol o'r cyfyngiad ar adnoddau lle'r oeddent yn gweithio. Fe wnaethant gyfeirio at ostyngiadau mewn lefelau staffio a cherbydau.

Yn un rhan o'r wlad, dadleuai staff fod problemau o ran diffyg llwytho gwybodaeth i fyny o'r llysoedd i nDelius yn arwain at unigolion yn aml yn cael eu hanfon i ffwrdd o sesiynau gwaith cyn lleoliad. Roedd eraill yn cwyno am asesiadau nad oeddent yn ddigon manwl o ran addasrwydd ar gyfer gwaith di-dâl yn y llys. Disgrifiwyd enghraifft ddiweddar o hyn. Dedfrydwyd
defnyddiwr cyffuriau mynych a oedd yn gaeth i alcohol i wneud gwaith di-dâl yn dilyn cynnig gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Bu'n rhaid mynd â hyn yn ôl i'r llys gan nad oedd yn ymarferol.

| 4.2. Through the Gate | Annigonol |
|---|---|
| Mae gwasanaethau Through the Gate yn cael eu personoli a'u cyd-gysylltu, gan fynd i'r afael ag anghenion adsefydlu defnyddwyr gwasanaethau. | |

Roedd y strategaeth ar gyfer Through the Gate yn cael ei gyrru'n ganolog, ac roedd y gwaith yn cael ei gontractio i ddarparwyr. Mae staff Through the Gate wedi gweithio'n galed i gael eu hintegreiddio yn y carchardai. Roedd yn rhaid i'r model fod yn wahanol ym mhob carchar oherwydd diwylliannau gwahanol y carchardai a phoblogaethau'r carcharorion.

Mae System Rheoli Ansawdd Through the Gate yn adrodd ar berfformiad. Mae'r CRC yn perfformio'n dda mewn cymhariaeth â mesurau contract Through the Gate. Fodd bynnag, nid oes gan y CRC systemau gwybodaeth rheoli ehangach i olrhain y deilliannau a gyflawnwyd gyda charcharorion.

Dangosodd darpariaeth Through the Gate bod llawer o waith wedi cael ei wneud i ddatblygu gallu'r tîm i ddarparu gwasanaethau i ategu gweithgarwch adsefydlu. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau o ran mynd i'r afael â'r perygl o niwed a chydlynu gwaith â staff cymunedol.

Roedd y gwaith o gynllunio adsefydlu yn canolbwyntio'n ddigonol ar anghenion adsefydlu'r unigolyn ac ar ffactorau yn gysylltiedig â throseddu ac ymatal mewn dim ond 45 y cant o achosion. Canolbwyntiwyd yn ddigonol ar gynorthwyo adsefydliad y cyfranogwr mewn dim ond 39 y cant o'r achosion a arolygwyd. Mewn llai na thraean o'r achosion, cyflawnwyd gwasanaethau adsefydlu yn unol ag anghenion adsefydlu'r cyfanogwr. Mewn 41 y cant o achosion perthnasol, roedd gweithgarwch adsefydlu wedi ystyried amrywiaeth ac amgylchiadau personol y cyfranogwr.

Canfuom fod staff Through the Gate yn gweithio'n galed i ymgysylltu â charcharorion, ond roedd llawer o'r gwaith yn seiliedig ar beth roedd carcharorion wedi ei ddweud mewn cyfweliad. Mewn nifer o achosion, nid oedd tystiolaeth bod safbwynt y swyddog cyfrifo ar gynllunio rhyddhau, nac ar faterion risg, wedi llywio'r

gwaith. Nid oedd modd i bob aelod o staff adsefydlu yn y carchardai gael mynediad at OASys i weld a oedd angen mynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â niwed. Mae hyn yn ddiffyg difrifol. Roedd llai na chwarter y cynlluniau yn ystyried ffactorau yn gysylltiedig â'r risg o niwed.

Cwblhawyd dros ddwy ran o dair o gynlluniau adsefydlu yn bryslon, ond dim ond ychydig llai na hanner a oedd wedi defnyddio'r wybodaeth a oedd ar gael yn ddigonol. Roedd dros dri chwarter yr unigolion wedi cael cyfleoedd i gyfrannu at sefydlu eu hanghenion adsefydlu eu hunain. Roedd bron i dri chwarter y cynlluniau yn ystyried amrywiaeth ac amgylchiadau personol yr unigolyn.

Roedd cydlynu gweithgarwch adsefydlu yn effeithiol yn ddarlun cymysg. Roedd tystiolaeth o gydlynu gweithgarwch adsefydlu yn effeithiol, gyda gwasanaethau eraill yn cael eu darparu yn y carchar mewn ychydig dros un o bob tri o'r achosion a archwiliwyd. Bu cyfathrebu effeithiol â'r swyddog cyfrifol yn y gymuned, cyn ac ar ôl y pwynt rhyddhau, mewn ychydig dros hanner yr achosion. Mewn traean o achosion, canfuom dystiolaeth o wasanaethau adsefydlu yn ategu trosglwyddiad effeithiol i ddarparwyr gwasanaethau lleol yn y gymuned. Yn gyffredinol, yn hanner yr achosion, roeddem o'r farn y cydlynwyd gweithgarwch adsefydlu yn effeithiol.

Er enghraifft, dedfrydwyd David i saith mis yn y ddalfa am ladrata. Mae ganddo hanes troseddol helaeth, gyda thrais yn nodwedd amlwg, gan gynnwys cam-drin domestig. Cawsom ein plesio gyda'r gwaith a wnaed i ddatrys ei fudd-daliadau a helpu gyda materion ETE.
Sefydlwyd cyfrif banc ar ei gyfer ac fe'i cyfeiriwyd at wasanaethau cyffuriau priodol. Fodd bynnag, nid oedd y ffaith ei fod yn peri risg i'w bartner wedi cael sylw. Roedd yr hepgoriad hwn yn tanseilio gwaith adsefydlu da a wnaed yn yr achos hwn fel arall.

Cwynodd nifer o swyddogion cyfrifol bod cyfathrebu rhwng staff dalfa a thimau cymunedol yn wael. Roedd hyn yn tanseilio rhannu gwybodaeth am faterion risg o niwed. Roedd heriau TGCh yn cymhelthu hyn, gan na allai staff ffonio, felly roedd yn rhaid iddynt ddefnyddio e-bost, ac nid oedd modd i'r holl dimau weld cofnodion Nomis. Roedd y darlun hwn yn amrywio ledled Cymru. Dywedodd swyddogion cyfrifol yng ngogledd y wlad eu bod o'r farn bod y sefyllfa'n gwella, gan eu bod yn gallu gweld cofnodion Nomis ar nDelius. Dywedodd staff yno fod rhyddhau gwaith papur yn ategu arferion adsefydlu.

Un engraifft o arfer gwael oedd achos Glen. Mae'n 37 oed a chafodd ddedfryd o wyth mis yn y carchar am droseddau yn ymwneud ag anonestrwydd a lladrata.
Methodd sgrinio yn y ddalfa â gwirio gwybodaeth am y cyfeiriad rhyddhau arfaethedig, ac o ganlyniad, methodd â nodi llety fel angen adsefydlu allweddol. Trosglwyddwyd Glen i Garchar Ei Mawrhydi Berwyn, lle cynhaliwyd gwaith cadarnhaol Through the Gate ar ETE ac ar driniaethau cyffuriau. Fodd bynnag, er gwaethaf cyswllt â'r swyddog cyfrifol ynghylch y cyfeiriad rhyddhau, nododd yr arolygydd fod y gweithwyr proffesiynol a oedd yn rhan o'r achos hwn wedi methu sylweddoli bod Glen wedi cyflawni trais domestig a'i fod yn risg i'w bartner. Roedd staff a oedd yn rhan o'r achos wedi cytuno â rhyddhau i'w chyfeiriad hi, er nad oedd camau diogelu ar waith ar gyfer ei bartner.

Cydnabu rheolwyr bod darparwyr Through the Gate angen gwneud mwy i wella prosesau cofnodi eu gwaith. Oherwydd y newid mewn carcharorion, mae cofnodi yn fwy cyfyngedig yn y carchardai lleol. Mewn carchardai eraill, mae cofnodi'n well ac mae rhagor o amser ar gyfer gwaith dilynol. Roeddent yn cytuno bod angen rhagor o gysondeb o ran dilyn atgyfeiriadau ac o ran rhannu gwybodaeth i lywio asesiadau risg o niwed.

Mae gan Garchar Ei Mawrhydi Abertawe fwrdd rhyddhau, ac roedd tystiolaeth yn ein sampl bod hyn yn cael ei ddefnyddio'n dda.

# Atodiad 1: Methodoleg

Crynhoir y fethodoleg arolygu isod, gyda chysylltiadau â'r tri pharth yn ein fframwaith safonau. Fe wnaethom ganolbwyntio ar gael tystiolaeth ar gyfer y safonau, y cwestiynau allweddol a'r anogaeth yn ein fframwaith archwilio.

### Parth un: cyflawni cyfundrefnol

Cyflwynodd y darparwr dystiolaeth cyn i Brif Swyddog Gweithredol y CRC roi cyflwyniad a oedd yn rhoi sylw i'r meysydd a ganlyn:

- Sut mae arweinyddiaeth y sefydliad yn ategu ac yn hyrwyddo'r gwaith o gyflawni gwasanaeth ymatebol wedi ei bersonoli o safon uchel i bawb sy'n defnyddio'r gwasanaethau?
- Sut mae staff yn y sefydliad yn cael eu grymuso i ddarparu wasanaeth ymatebol wedi ei bersonoli o safon uchel i bawb sy'n defnyddio'r gwasanaethau?
- A oes amrywiaeth cynhwysfawr o wasanaethau o safon uchel ar waith, sy'n ategu gwasanaeth ymatebol wedi ei deilwra i bawb sy'n defnyddio'r gwasanaethau?
- A oes gwybodaeth brydlon a pherthnasol ar gael, ac a oes cyfleusterau priodol i ategu ymagwedd ymatebol wedi ei bersonoli o safon uchel i bawb sy'n defnyddio'r gwasanaethau?
- Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer rhagor o welliannau, a pham?

Yn ystod prif gyfnod y gwaith maes, fe wnaethom gyfweld 83 o swyddogion cyfrifol unigol, gan eu holi nhw am eu profiadau o hyfforddiant, datblygu, goruchwylo rheolaeth ac arweinyddiaeth. Fe wnaethom gynnal cyfarfodydd a grwpiau ffocws amrywiol, a oedd yn ein galluogi ni i driongli tystiolaeth a gwybodaeth. Gyda'i gilydd, fe wnaethom gynnal 31. Barnwyd y dystiolaeth a archwiliwyd dan y parth hwn mewn cymhariaeth â'n nodweddion graddio a gyhoeddwyd[11].

### Parth dau: goruchwylio achosion

Fe wnaethom gwblhau asesiadau achos dros gyfnod o bythefnos, gan archwilio ffeiliau defnyddwyr gwasanaethau a chyfweld â swyddogion cyfrifol. Yr achosion a ddewiswyd oedd unigolion a oedd wedi bod dan oruchwyliaeth gymunedol am rhwng chwech a saith mis yn fras (naill ai drwy ddedfryd gymunedol neu yn dilyn eu rhyddhau o'r ddalfa). Galluogodd hyn ni i archwilio gwaith mewn perthynas ag asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu. Lle'r oedd angen gwneud hynny, cynhaliwyd cyfweliadau â phobl eraill a oedd yn ymwneud yn agos â'r achos.

Fe wnaethom archwilio 130 o achosion ar draws pum uned gyflawni leol. Gosodwyd maint y sampl i gyflawni lefel hyder o 80 y cant (gyda lwfans gwallau o 5), ac fe

[11] Gellir dod o hyd i nodweddion graddfeydd parth un Arolygiaeth Ei Mawrhydi yma: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2018/05/Probation-Domain-One-rating-characteristics-March-18-final.pdf

wnaethom sicrhau bod y cyfraddau mewn perthynas â rhywedd, math o waredu a lefel y risg o niwed difrifol yn cyfateb â'r rhai yn y boblogaeth gymwys.
Yn rhai rhannau o'r adroddiad hwn, gallai'r data fod wedi cael ei rannu i is-samplau llai o faint. Er enghraifft, achosion gwryw/benyw, achosion Swyddogion Prawf/Swyddogion y Gwasanaeth Prawf, a lle digwyddodd hynny, gallai'r lwfans gwallau ar gyfer y canfyddiadau is-samplau fod yn uwch na phump.

### Parth tri: gwaith penodol i sector

Fe wnaethom gwblhau asesiadau achos ar gyfer dau sampl arall: (i) gwaith di-dâl a (ii) Through the Gate. Yn yr un modd â pharth dau, gosodwyd maint y samplau i gyflawni lefel hyder o 80 y cant (gyda lwfans gwallau o 5).

Gwaith di-dâl

Fe wnaethom archwilio 53 o achosion â gofynion gwaith di-dâl a oedd wedi dechrau o leiaf dri mis yn flaenorol. Roedd y sampl yn cynnwys achosion a reolwyd gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn ogystal ag achosion a reolwyd gan y CRC. Fe wnaethom sicrhau bod y cyfraddau mewn perthynas â rhywedd a lefel y risg o niwed difrifol yn cyfateb â'r rhai yn y boblogaeth gymwys. Fe wnaethom ddefnyddio'r systemau asesu a rheoli achosion i archwilio'r achosion hyn.

Yn ogystal, fe wnaethom gynnal cyfarfodydd â'r unigolion/grwpiau a ganlyn, a wnaeth ein galluogi i driongli tystiolaeth a gwybodaeth:

- yr uwch reolwr â chyfrifoldeb cyffredinol dros gyflawni gwaith di-dâl
- rheolwyr canol â chyfrifoldebau am waith di-dâl
- grŵp o oruchwylwyr gwaith di-dâl, o amrywiaeth o leoliadau daearyddol.

Through the Gate

Fe wnaethom archwilio 33 o achosion dalfa lle'r oedd yr unigolyn wedi cael ei ryddhau ar drwydded neu dan oruchwyliaeth ôl-ddedfryd chwe wythnos yn gynharach o garchardai adsefydlu'r CRC, dros gyfnod o bythefnos. Roedd y sampl yn cynnwys y rhai oedd â hawl i gael gwasanaethau cyn-rhyddhau Through the Gate gan y CRC a oedd wedyn yn cael eu goruchwylio ar ôl eu rhyddhau gan y CRC neu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Fe wnaethom ddefnyddio'r systemau asesu a rheoli achosion i archwilio'r achosion hyn.

Fe wnaethom gynnal cyfarfodydd hefyd â'r unigolion/grwpiau a ganlyn:

- yr uwch reolwr yn y CRC sy'n gyfrifol am wasanaethau Through the Gate
- grŵp o reolwyr canol sy'n gyfrifol am wasanaethau Through the Gate mewn carchardai penodol
- grŵp o weithwyr adsefydlu CRC sy'n uniongyrchol gyfrifol am baratoi cynlluniau adsefydlu a/neu gwrdd ag anghenion adsefydlu a nodwyd.

# Atodiad 2: Canlyniadau archwiliadau: parthau dau a thri

## 2. Goruchwylio achosion

| Cwestiwn safonol/allweddol | Sgôr/% ie |
|---|---|
| **2.1. Asesiad**<br>Mae'r asesiad wedi ei lywio'n dda, yn ddadansoddol ac wedi ei bersonoli, gan fynd ati i gynnwys y defnyddiwr gwasanaeth | **Angen gwella** |
| 2.1.1. A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar ymgysylltu â'r defnyddiwr gwasanaethau? | 67% |
| 2.1.2. A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar y ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu ac ymatal? | 68% |
| 2.1.3. A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | 57% |
| **2.2. Cynllunio**<br>Mae gwaith cynllunio wedi ei lywio'n dda, yn gyfannol ac wedi ei bersonoli, gan fynd ati i gynnwys y defnyddiwr gwasanaethau. | **Angen gwella** |
| 2.2.1. A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar ymgysylltu â'r defnyddiwr gwasanaethau? | 61% |
| 2.2.2. A yw'r gwaith cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar leihau aildroseddu a chynorthwyo'r defnyddiwr gwasanaethau i ymatal? | 64% |
| 2.2.3. A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? [12] [13] | 48% |
| **2.3. Gweithredu a chyflawni**<br>darperir gwasanaethau wedi eu personoli a'u cydlynu o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio'n dda, gan ymgysylltu â'r defnyddiwr gwasanaethau | **Angen gwella** |
| 2.3.1. A yw'r cyfnod ôl-ddalfa/dedfryd yn cael ei weithredu'n effeithiol, gan ganolbwyntio ar ymgysylltu â'r defnyddiwr gwasanaethau? | 78% |

[12] Sylwer: cyfrifir canrannau sy'n ymwneud â chwestiynau 2.2.3, 2.3.3 a 2.4.3 ar gyfer yr is-sampl *perthnasol* - hynny yw, yr achosion hynny lle mae materion yn gysylltiedig â'r risg o niwed difrifol yn gymwys, yn hytrach na *chyfanswm* y sampl a archwiliwyd.

[13] Wrth benderfynu ar y sgôr gynllunio, rydym wedi defnyddio disgresiwn proffesiynol mewn perthynas â thystiolaeth ehangach a gasglwyd ynghylch yr agwedd benodol hon ar ymarfer.

| | | |
|---|---|---|
| 2.3.2. | A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cynorthwyo'r defnyddiwr gwasanaethau i ymatal mewn ffordd effeithiol? | 66% |
| 2.3.3. | A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn ategu diogelwch pobl eraill? | 59% |
| **2.4.** | **Adolygu**<br>Mae adolygu cynnydd yn cael ei lywio'n dda, yn ddadansoddol ac yn cael ei bersonoli, gan fynd ati i gynnwys y defnyddiwr gwasanaethau | **Angen gwella** |
| 2.4.1. | A yw adolygu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gydymffurfiaeth ac ymgysylltiad y defnyddiwr gwasanaethau? | 78% |
| 2.4.2. | A yw adolygu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gynorthwyo'r defnyddiwr gwasanaethu i ymatal? | 74% |
| 2.4.3. | A yw adolygu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | 54% |


## 4. Gwaith penodol i'r CRC

| Cwestiwn safonol/allweddol | | Sgôr/% ie |
|---|---|---|
| **4.1.** | **Gwaith di-dâl**<br>Mae gwaith di-dâl yn cael ei ddarparu'n ddiogel ac yn effeithiol, gan ymgysylltu â'r defnyddiwr gwasanaethau yn unol â disgwyliadau'r llys | **Angen gwella** |
| 4.1.1. | A yw'r asesu'n canolbwyntio ar y materion allweddol sy'n berthnasol i waith di-dâl? | 64% |
| 4.1.2. | A yw trefniadau ar gyfer gwaith di-dâl yn canolbwyntio'n ddigonol ar ymgysylltu â'r defnyddiwr gwasanaethau a chydymffurfiaeth â'r ddedfryd? | 72% |
| 4.1.3. | A yw trefniadau ar gyfer gwaith di-dâl yn gwneud y mwyaf o'r cyfle i ddatblygu'r defnyddiwr gwasanaethau yn bersonol? | 51% |
| 4.1.4. | A yw dedfryd y llys yn cael ei gweithredu'n briodol? | 79% |
| **4.2.** | **Through the Gate**<br>Mae gwasanaethau Through the Gate yn cael eu personoli a'u cydlynu, gan fynd i'r afael ag anghenion adsefydlu'r defnyddiwr gwasanaeth | **Annigonol** |

| Cwestiwn safonol/allweddol | Sgôr/% ie |
|---|---|
| 4.2.1. A yw cynllunio adsefydlu yn canolbwyntio'n ddigonol ar anghenion adsefydlu defnyddwyr gwasanaethau ac ar ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu ac ymatal? | 45% |
| 4.2.2. A yw gweithgarwch adsefydlu yn canolbwyntio'n ddigonol ar ategu adsefydlu'r defnyddwyr gwasanaethau? | 39% |
| 4.2.3. A yw gweithgarwch adsefydlu yn cael ei gydlynu'n effeithiol? | 50% |

# Atodiad 3: Model gweithredu

**CRC Cymru: Strwythur y Sefydliad**




(Darparwyd yr organogram gan CRC Cymru)

## Model gweithredu CRC Cymru yn ymarferol

Mae CRC Working Links wedi datblygu model rheoli achosion dwyster uchel/isel wedi ei ategu gan system sgorio BRAG. Mae'n ystyried gofynion cytundebol a chanfyddiadau ymchwil. Mae'n cydnabod bod risg yn ddeinamig a hefyd bod aildroseddu yn aml yn digwydd yn gynnar yn ystod y ddedfryd. Dyna pam mae hi'n bwysig ymgysylltu'n effeithiol â'r defnyddiwr gwasanaethau o ddechrau'r cysylltiad. Cydnabyddir mai'r berthynas oruchwylio yw'r prif gyfrwng ar gyfer newid ymddygiad a helpu i ategu ymatal.

Mae Swyddogion Prawf a Swyddogion y Gwasanaeth Prawf yn rheoli achosion mewn swyddfeydd lleol (y swyddfa flaen) ledled pum ôl troed Uned Cyflawni Lleol yng Nghymru. Mae'r Unedau hyn yn rhannu'r un ffiniau ag Adran Cymru'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

Mae Swyddogion y Gwasanaeth Prawf yn y canolbwyntiau gweithredol wedi darparu gweithgareddau Rheoli Achosion, yn bennaf drwy gysylltu dros y ffôn, i rai defnyddwyr gwasanaethau sydd yn y ddalfa a hefyd i'r rhai sy'n cael eu hasesu fel rhai risg isel yn y gymuned. Mae cyfran fawr o hyn yn destun Gorchmynion gofynion gwaith di-dâl unigol. Ym mis Hydref 2018, mae newidiadau cytundebol i gefnogi Cyswllt Lleiafswm Rheolwr Achos wyneb yn wyneb wedi ategu datblygiadau i'r model gweithredu. O ganlyniad, o 1 Tachwedd 2018, mae achosion Gwyrdd newydd eu dedfrydu (a aseswyd fel rhai risg isel o beri niwed difrifol) wedi cael eu rheoli gan Swyddogion Gwasanaeth Prawf y Swyddfa Flaen o ddechrau'r ddedfryd. Ymhellach, mae amlderau cysylltiad ar gyfer achosion Gwyrdd (lle aseswyd bod risg canolig o beri niwed difrifol) wedi cynyddu i leiafswm o gysylltiad misol i ategu amlder uwch o gyswllt wyneb yn wyneb â Rheolwr Achosion mewn timau swyddfa flaen. Bydd Gorchmynion Gwaith Di-dâl gofynion sengl (a aseswyd fel risg isel o beri niwed difrifol) yn parhau i gael eu rheoli gan Swyddogion Gwasanaeth Prawf Canolbwynt Gweithredol.

Mae tri chanolbwynt gweithredol yng Nghymru, yng Nghaerdydd, Abertawe a Bae Colwyn. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau gweinyddol yn cael eu cyflawni yn y canolbwyntiau gweithredol. Gwneir hyn i sicrhau bod prosesau yn cael eu symleiddio, bod gan asiantaethau bwynt cyswllt unigol effeithiol a gwneud y gorau o'r cymorth sydd ei angen ar gyfer cyflawni ar y rheng flaen. Fel y nodwyd, rydym wrthi'n addasu'r model gweithredu fel bod modd i ni ddarparu'r rhan fwyaf o weithgarwch rheoli achosion (ac eithrio gorchmynion gwaith di-dâl gofyniad sengl risg isel) o'r swyddfa flaen o bwynt y ddedfryd a fydd yn cwrdd â gofynion manyleb cyswllt lleiafswm. Mae cyflawni drwy'r swyddfa flaen yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir drwy drefniadau canolbwynt cymunedol.

Gwasanaethau sydd ar gael a chynnwys y trydydd sector: Ers 2015, Mae Cwmni Adsefydlu Cenedlaethol Cymru wedi mabwysiadu strategaeth o ddatblygu'r gwaith o gyflawni gwasanaethau craidd mewn lleoliadau cymunedol priodol drwy'r Canolbwyntiau Cymunedol. Mae'r trefniadau hyn yn aml yn cael eu lleoli mewn prosiectau sydd wedi gwreiddio mewn cymunedau lleol ac ochr yn ochr â sefydliadau sydd â gwasanaethau sy'n cefnogi anghenion ein defnyddwyr gwasanaethau. Gan hynny, yn aml maent yn tueddu i beidio â bod wedi eu cyfyngu i ddefnyddwyr gwasanaethau o gefndir cyfiawnder troseddol, a gall fod yn fodd o gynorthwyo ail-integreiddio i'r gymuned. Hyd yma mae 19 o Ganolbwyntiau yn CRC Cymru, yn amrywio o weithrediadau bach, sy'n agored am un diwrnod yr wythnos mewn trefi llai o faint, i'r rhai mewn dinasoedd a threfi mawr sy'n gallu bod yn agored am hyd at bum diwrnod yr wythnos. Rhan ganolog o brofiad y canolbwyntiau cymunedol yw nifer o'r Llwybrau hysbys i ategu adsefydlu y mae'r gwasanaethau prawf wedi eu mabwysiadu dros nifer o flynyddoedd. Mae'r rhain yn

cynnwys mynediad at gymorth â llety a dyledion, gwasanaethau caethiwed i sylweddau, a chyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant.

Mae gwasanaethau cyffuriau ac alcohol ledled Cymru yn cynnwys cyflawni ar draws sectorau ar lefel leol. Mewn nifer o leoliadau Swyddfa Flaen a Chanolbwyntiau Cymunedol, mae staff CRC wedi eu cyd-leoli yn llawn neu'n rhan amser gyda gweithwyr arbenigol cyffuriau ac alcohol.

Mae'r Canolbwyntiau Cymunedol yn rhai amrywiol eu natur ac yn amrywio o'r rhai sydd wedi eu targedu'n benodol i ddarparu gwasanaethau i fenywod (Women's Pathfinder, Caerdydd) i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ochr yn ochr ag amrywiaeth eang o bartneriaid mewn lleoliadau sy'n fanteisiol yn ddaearyddol (Hartshorn House, Maesteg). Cefnogir yr ymagwedd hon gan yr ymchwil ar ymatal fel galluogi hunan-effeithiolrwydd ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae gennym gynllun i ddatblygu canolbwyntiau cymunedol lle mae eu hangen o hyd a datblygu'r amrywiaeth o wasanaethau yn y rhai sy'n bodoli'n barod.

Dyrannu Achosion: Rydym yn defnyddio offeryn i sicrhau ein bod ni'n dyrannu achosion naill ai i Swyddogion Prawf neu i Swyddogion y Gwasanaeth Prawf yn seiliedig ar eu proffil risg. Gwneir dyraniadau cychwynnol gan staff gweinyddol yn y canolbwyntiau gweithredol, gyda Rheolwr Tîm yn goruchwylio. Yna, cadarnheir priodoldeb dyrannu achosion ar ôl y cysylltiad wyneb yn wyneb cyntaf a'r asesiad risg a BRAG cychwynnol gan Swyddogion Prawf a Swyddogion y Gwasanaeth Prawf.

Cynefino: Rydym wedi datblygu model cynefino rheoli achosion ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth, sy'n cael ei ddarparu mewn grwpiau gan amlaf. Fodd bynnag, ymgymerir â'r ymagwedd un i un yn achos rhai defnyddwyr gwasanaethau sy'n fenywod neu sy'n fregus ac mewn rhai ardaloedd gwledig. Mae defnyddwyr gwasanaethau ag anawsterau amrywiaeth - er enghraifft, anableddau dysgu a'r rhai sydd angen gwasanaethau cyfieithu ar y pryd - hefyd yn cael trefniadau cynefino wedi eu teilwra lle bo'r angen. Mae'r ymagwedd hon yn sicrhau bod Defnyddwyr Gwasanaethau yn elwa at ddealltwriaeth gyson o ofynion y ddedfryd a bod ganddynt fynediad at wybodaeth werthfawr ynghylch gwasanaethau a chymorth sydd ar gael. Nod y sesiwn gynefino 'r deunyddiau ategol yw nodi anghenion amrywiol a pharatoi'r defnyddiwr gwasanaethau ar gyfer y cyfarfod un i un gyda'i Reolwr Achos i gwblhau cynllun y ddedfryd. Mae hyn ar wahân i unrhyw broses gynefinol ar gyfer Ymyriadau a Gwaith Di-Dâl.

Model Rheoli Achosion: Elfen allweddol o'r model hwn yw'r defnydd o system sgorio BRAG. Mae hwn yn asesiad sy'n adeiladu ar yr OASys cychwynnol ac sy'n penderfynu ar ddwyster rheoli achosion pob achos unigol. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei chymhwyso waeth beth yw'r math o ddedfryd a'r gofynion cysylltiedig. Y lefel risg a aseswyd, o ran aildroseddu a pheri niwed difrifol, yw'r ffactorau trechaf yn y sgôr BRAG. Mae pob achos yn cael eu dynodi â sgôr Glas (dalfa) Coch, Coch/Ambr, Ambr neu Wyrdd. Bydd achosion coch, yr asesir eu bod yn peri'r risg uchaf o niwed difrifol a/neu aildroseddu, yn aml gydag anghenion cymhleth cysylltiedig, yn denu'r ymyriadau mwyaf dwys a'r swm mwyaf o adnoddau. Mae'r Defnyddwyr Gwasanaethau hyn angen cyswllt Rheolwr Achos un i un yn rheolaidd a goruchwyliaeth risg agos sy'n cael ei ategu gan Gynlluniau Rheoli Risg sy'n blaenoriaethu cyflawni ymyriadau a gwaith/gwasanaethau amlasiantaethol.

Ar ben arall y raddfa, bydd achosion gwyrdd, yr asesir eu bod yn peri'r risg lleiaf o niwed a/neu aildroseddu ac sydd â'r anghenion lleiaf cymhleth, yn denu'r ymyriadau lleiaf dwys a'r lefel isaf o adnoddau yn unol â'r egwyddor o adnoddau yn dilyn risg. Mae lefelau ymateb a lefelau ymgysylltu'r Defnyddiwr Gwasanaethau yn ffactorau pellach sy'n cael eu hystyried yn yr asesiad BRAG. Pennir amlderau cyswllt i gyfateb â'r statws BRAG. Mae'r rhain yn destun hysbysiad newid atodlen wyth ar hyn o bryd.

Gan fod lefelau risg yn ddeinamig ac yn unol ag arferion rheoli risg da, dylid ymgymryd ag asesiad risg pellach ar unwaith os oes unrhyw achos i beri pryder neu os oes newid sylweddol yn amgylchiadau'r defnyddiwr gwasanaethau. Mae sgôr BRAG pob defnyddiwr gwasanaethau yn cael ei adolygu bob chwe wythnos i sicrhau bod y ffactorau risg a'r ffactorau yn gysylltiedig â throseddu yn cael eu hailasesu'n barhaus, gan roi blaenoriaeth i weithgareddau rheoli risg ac adsefydlu. Gallai'r ailasesiad hwn arwain at newid y statws BRAG a thrwy hynny newid yn yr adnoddau a ddyrannir, fel sy'n cael ei adlewyrchu yn y cynllun dedfryd. Gallai hyn olygu newid Rheolwr Achos e.e. o Swyddog Gwasanaeth Prawf i Swyddog Prawf, goruchwyliaeth gan Swyddog Prawf, neu mewn achos lle mae'r risg yn cael ei leihau, cynnwys Swyddog Gwasanaeth Prawf fel Rheolwr Achos dynodedig. Mae parhad rheoli achos yn egwyddor allweddol oni bai mai newid Swyddog Cyfrifol fydd y ffordd fwyaf priodol o reoli'r risgiau.

Menywod: Mae defnyddwyr gwasanaethau sy'n fenywod yn cael cynnig Rheolwr Achos benyw, ac os oes cyfle iddynt gael eu gweld mewn amgylchedd cwbl fenywaidd, naill ai mewn lleoliad canolbwynt cymunedol priodol lle maent ar gael neu drwy drefniadau adrodd menywod yn unig mewn lleoliadau Swyddfa Flaen.

Rheoli Troseddwyr Integredig Cymru (IOM Cymru): Mae CRC Cymru yn cynorthwyo'r gwaith o ddarparu IOM mewn cynlluniau lleol drwy bob un o'r pum LDU ochr yn ochr â'n partneriaid arweiniol. Mae Rheolwyr Achos CRC yn rhan annatod o'r ymagwedd amlasiantaethol hon at leihau aildroseddu a niwed cysylltiedig yn y carfanau dynodedig. Mae'r model BRAG yn rhoi pwysoliad Coch neu Goch/Ambr i achosion IOM i adlewyrchu'r risg a lefel yr adnoddau sydd eu hangen i reoli'r achosion hynny sy'n peri risg uchel/uchel iawn o aildroseddu ac sy'n aml mewn perygl o beri niwed difrifol i eraill.

Timau Ymyriadau: Mae ein model gweithredu yn sicrhau timau ymyriadau medrus sy'n darparu RAR grwpiau a Rhaglenni Achrededig ledled Cymru. Mae'r portffolio o RAR yn adlewyrchu proffil anghenion y defnyddwyr gwasanaethau a sylfaen dystiolaeth arfer effeithiol. Rydym wrthi'n adnewyddu'r RAR, ac fel rhan o hynny rydym wedi bod yn eu cyflwyno ar gyfer gwerthusiadau gan banel effeithiolrwydd HMPPS Cymru. Mae gan bob RAR feini prawf dewis, y bydd y Rheolwr Achos yn eu hystyried wrth benderfynu ar ddyraniad a threfn diwrnodau RAR. Mae RAR penodol i fenywod. Mae'r Uwch Ganolfan Bresenoldeb yn darparu modiwlau penodol i gwrdd ag anghenion y grŵp oedran 18-25.

Gwaith di-dâl; Yn dilyn cynefino, bydd defnyddwyr gwasanaethau sydd â gofyniad gwaith di-dâl yn cael asesiad wyneb yn wyneb o'u risgiau a'u haddasrwydd ar gyfer lleoliad gwaith di-dâl. Bydd rhai yn ymgymryd â lleoliadau unigol (cymunedol), tra bydd eraill mewn grwpiau. Bydd y grwpiau yn darparu ar gyfer amrywiaeth o broffiliau defnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys y rhai yr aseswyd eu bod yn peri risg uchel o beri niwed difrifol a/neu sy'n cael eu rheoli gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

Adsefydlu: Darperir Gwasanaethau Adsefydlu drwy staff CRC yn y carchar (Carchar y Parc) a thrwy'r gadwyn gyflenwi. Rydym yn darparu Rheolwr Achos ar adeg y ddedfryd. Mae eu hymgysylltiad â'r defnyddwyr gwasanaethau yn cynyddu o'r adeg y bydd 12 wythnos i fynd tan eu rhyddhau, fel eu bod yn gallu myfyrio ac adeiladu ar y gwaith a wnaed yn y ddalfa yn y cynllun dedfryd.

Through the Gate: Yng Nghymru, mae PACT yn darparu gwasanaeth mentora Through the o garchardai adsefydlu lleol fel rhan o'n cadwyn gyflenwi. Mae mentoriaid yn darparu cyngor, arweiniad, atgyfeiriadau a brocera dwys wedi eu personoli o ran cymorth gwasanaethau prif ffrwd. Y partner cadwyn gyflenwi ar gyfer ein darpariaeth Through the Gate mewn carchardai adsefydlu lleol yw Ymddiriedolaeth St Giles. Maent yn darparu rhaglen sy'n cynnwys cymorth â llety a chyflogadwyedd, cymorth â chyllid, budd-daliadau

a dyledion, iechyd a theulu a pherthynas ag eraill. Rydym hefyd wedi comisiynu gwasanaethau gan sefydliadau fel Cymru Ddiogelach, sy'n elusen annibynnol, i weithio gyda menywod sy'n ddioddefwyr neu sydd mewn perygl o gam-fanteisio rhywiol, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Drwy weithio'n agos gyda'n Swyddogion Adsefydlu mewn carchardai, darperir lefel uchel o gymorth wedi ei deilwra i fenywod sy'n gadael y carchar.

http://www.walescrc.co.uk

**Map o'r ardal**




(Darparwyd y Map gan CRC Cymru)

# Atodiad 4: Geirfa

| | |
|---|---|
| **Atebolrwydd** | Pan fydd pobl yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar feysydd gwaith sydd o fewn eu cylch gwaith |
| **Rhaglen achrededig** | Rhaglen waith a ddarparwyd i droseddwyr mewn grwpiau neu'n unigol drwy ofyniad mewn gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig, neu fel rhan o ddedfryd yn y ddalfa neu amod mewn trwydded garchar. Mae rhaglenni o'r fath yn cael eu hachredu gan Banel Achrededig y Gwasanaethau Cywiro fel rhai sy'n effeithiol o ran lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu |
| **Dyrannu** | Y broses ar gyfer gwneud penderfyniad ynghylch a fydd troseddwr yn cael ei oruchwylio gan CRC neu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| **Ymagwedd** | Y ffordd gyffredinol y gwneir i rywbeth ddigwydd; mae ymagwedd yn cynnwys prosesau a chamau wedi eu strwythuro mewn fframwaith o egwyddorion a pholisïau |
| **Asesu** | Y broses ar gyfer gwneud penderfyniad am y pethau y gellid bod angen i unigolyn eu gwneud i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu a/neu beri rhagor o niwed |
| **Rhwystrau** | Y pethau a allai ei gwneud hi'n anodd i unigolyn newid |
| **BBR** | Building Better Relationships: rhaglen gwaith grŵp wedi ei hachredu'n genedlaethol sydd wedi ei dylunio i leihau aildroseddu gan oedolion gwryw a gyflawnodd drais yn erbyn partner agos |
| **BRAG** | Proses asesu sy'n nodi bod achos yn un glas, coch, ambr neu wyrdd a thrwy hynny sy'n penderfynu ar y dull goruchwylio |
| **Torri (gorchymyn neu drwydded)** | Lle mae troseddwr yn methu cydymffurfio ag amodau gorchymyn llys neu drwydded. Gellid cymryd camau gweithredu i ddychwelyd y troseddwr i'r llys ar gyfer camau ychwanegol neu eu galw yn ôl i'r carchar |
| **Amddiffyn plant** | Gwaith a wnaed i sicrhau bod pob cam rhesymol wedi cael ei gymryd i leihau'r perygl fod plentyn yn cael ei niweidio |
| **Diogelu plant** | Y gallu i ddangos bod llesiant plentyn neu unigolyn ifanc wedi cael ei 'ddiogelu'. Mae hyn yn cynnwys amddiffyn plant, ond gall fod yn ehangach na hynny. Mae'r term 'diogelu' hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas ag oedolion agored i niwed |
| **CRC** | Cwmni Adsefydlu Cymunedol: sefydlwyd 21 cwmni o'r fath ym mis Mehefin 2014, i reoli'r rhan fwyaf o droseddwyr sy'n peri risg isel neu ganolig o niwed difrifol |
| **Y system cyfiawnder troseddol** | Yn cynnwys pob asiantaeth sy'n ymwneud â chynnal a gweithredu'r gyfraith – yr heddlu, y llysoedd, timau troseddau ieuenctid, prawf a charchardai |
| **Ymatal** | Rhoi'r gorau i droseddu neu achosion eraill o ymddygiad |

| | |
|---|---|
| | gwrthgymdeithasol |
| **Gorfodi** | Camau a gymerir gan swyddog cyfrifol mewn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth unigolyn â thrwydded neu ddedfryd gymunedol. Gall camau gorfodi fod yn rhai sy'n cosbi neu'n cymell |
| **Uwchgyfeirio** | Y term a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses lle mae achos a ddyrennir i CRC yn cael ei gyfeirio at y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar gyfer ei ailddyrannu oherwydd cynnydd yn y risg o niwed o du'r troseddwr sy'n rhoi'r troseddwr hwnnw mewn categori o bobl y dylid eu goruchwylio gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| **ETE** | Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: gwaith i wella addysg unigolyn, a chynyddu eu rhagolygon cyflogaeth |
| **Carchar Ei Mawrhydi** | Defnyddir yr acronym HMP yn Saesneg |
| **HMPPS** | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi: o 1 Ebrill 2017, HMPPS oedd yr un asiantaeth a oedd yn gyfrifol am ddarparu'r holl wasanaethau carchardai a phrawf ledled Cymru a Lloegr. Ar yr un pryd, cymerodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder gyfrifoldeb dros gyfeiriad polisi cyffredinol, pennu safonau, craffu ar berfformiad carchardai a chomisiynu gwasanaethau. Roedd y rhain yn arfer bod yn rhan o gylch gwaith y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol (yr asiantaeth y mae'r HMPPS wedi ei disodli) |
| **TGCh** | Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu |
| **Ymyriadau** | Gwaith gydag unigolyn a gynlluniwyd i newid eu hymddygiad troseddu a/neu i ategu diogelu'r cyhoedd. Ymyriad adeiladol yw lle mai'r prif bwrpas yw lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Ymyriad cyfyngol yw lle mai'r prif bwrpas yw lleihau i'r eithaf y perygl y bydd yr unigolyn yn niweidio pobl eraill. Yn achos troseddwyr rhyw, er enghraifft, un ymyriad adeiladol fyddai eu rhoi ar raglen achrededig trin troseddwyr rhyw; ymyriad cyfyngol (i leihau eu perygl o niwed i eraill) fyddai cynnal gwaith monitro manwl yn rheolaidd ar eu llety, eu cyflogaeth a'r mannau lle maent yn mynd, gan bennu a gorfodi cyfyngiadau clir fel bo'n briodol i bob achos. Mae'r ddau fath o ymyriadau yn bwysig |
| **IOM (Rheoli Troseddwyr Integredig) Cymru** | Rheoli troseddwyr integredig: ymateb traws-asiantaethol i'r bygythiadau troseddu ac aildroseddu mae cymunedau lleol yn eu hwynebu. Nodir a rheolir y troseddwyr mwyaf dyfal a phroblemus ac fe'u rheolir ar y cyd gan asiantaethau partner sy'n cydweithio |
| **Trwydded** | Mae hwn yn gyfnod o oruchwylio yn union ar ôl rhyddhau o'r ddalfa, ac fel arfer mae'n cael ei weithredu ar ôl i droseddwr dreulio hanner ei ddedfryd. Gall torri amodau'r drwydded mewn unrhyw ffordd arwain at alw'r troseddwr yn ôl i'r carchar, lle gallai'r troseddwr aros yn y ddalfa ar gyfer eu dedfryd wreiddiol yn ei chyfanrwydd |
| **Uned gyflawni leol** | Uned weithredol lle ceir swyddfa neu swyddfeydd, sydd fel arfer yn cyffinio ag unedau rheoli sylfaenol yr heddlu a strwythurau |

| | |
|---|---|
| | awdurdodau lleol |
| **MAPPA** | Trefniadau Amlasiantaethol Diogelu'r Cyhoedd: lle mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, yr heddlu, carchardai ac asiantaethau eraill yn cydweithio'n lleol i reoli troseddwyr sy'n peri risg uwch o niweidio pobl eraill |
| **Mentora** | Y cyngor a'r arweiniad a gynigir gan unigolyn mwy profiadol i ddatblygu potensial unigolyn |
| **Y Weinyddiaeth Gyfiawnder** | Adran y llywodraeth sy'n gyfrifol am y system cyfiawnder troseddol yn y Deyrnas Unedig |
| **NPS** | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol: gwasanaeth cenedlaethol unigol a ddaeth i rym ym mis Mehefin 2014. Ei rôl yw darparu gwasanaethau i'r llysoedd a rheoli grwpiau penodol o droseddwyr, gan gynnwys y rhai sy'n peri risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol a'r rhai sy'n destun MAPPA yng Nghymru a Lloegr |
| **OASys** | System Asesu Troseddwyr: fe'i defnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd gan y CRC a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i fesur risgiau ac anghenion troseddwyr dan oruchwyliaeth |
| **Rheoli troseddwyr** | Un o egwyddorion rheoli troseddwyr yw bod un ymarferwr yn cymryd cyfrifoldeb dros reoli troseddwr drwy gydol ei ddedfryd, pa un ai yn y ddalfa neu yn y gymuned |
| **PACT** | Ymddiriedolaeth Cynghori a Gofalu am Garcharorion |
| **Partneriaid** | Mae partneriaid yn cynnwys sefydliadau statudol ac anstatudol, sy'n gweithio gyda'r cyfranogwr/troseddwr drwy gytundeb partneriaeth â CRC neu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| **Swyddog prawf** | Dyma'r term am swyddog cyfrifol sydd wedi cwblhau cymhwyster proffesiynol ar lefel addysg uwch. Mae enw'r cymhwyster a chynnwys yr hyfforddiant yn amrywio, yn dibynnu ar pa bryd y digwyddodd yr hyfforddiant. Maent yn rheoli achosion mwy cymhleth |
| **PQiP** | Cymhwyster Prawf Ymarferol |
| **Darparwyr** | Mae darparwyr yn cynnig gwasanaeth neu fewnbwn wedi ei gomisiynu a'i ddarparu dan gontract i CRC neu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys y staff a'r gwasanaethau a ddarperir dan y contract, hyd yn oed pan fyddant wedi eu hintegreiddio neu eu lleoli mewn CRC neu yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| **Goruchwyliaeth ôl-droseddu** | Wedi ei chyflwyno gan*Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 2014*, mae goruchwyliaeth ôl-droseddu yn gyfnod o oruchwyliaeth ar ôl i drwydded ddod i ben. Cymerir camau gorfodi gan y llys ynadon yn erbyn achosion o dor-amod |
| **RAR** | Gofyniad gweithgarwch adsefydlu: ers mis Chwefror 2015, pan ddaeth *Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014* i rym, gall llysoedd bennu nifer y dyddiau RAR mewn gorchymyn; mater i'r gwasanaethau prawf yw penderfynu ar yr union waith y mae angen |

| | |
|---|---|
| | ei wneud yn ystod y dyddiau RAR a bennwyd |
| **Swyddog cyfrifol** | Y term a ddefnyddir ar gyfer y swyddog (a elwid yn 'reolwr troseddwyr' yn flaenorol) sy'n meddu ar y prif gyfrifoldeb o ran rheoli achos |
| **Risg o niwed difrifol** | Term a ddefnyddir yn OASys. Mae pob achos yn cael eu dosbarthu fel rhai lle mae risg isel/canolig/uchel/uchel iawn o niwed difrifol i eraill. Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn defnyddio'r term hwn wrth gyfeirio at y system ddosbarthu, ond mae'n defnyddio'r term ehangach 'risg o niwed' wrth gyfeirio at y dadansoddiad y mae gofyn ei wneud er mwyn penderfynu at y lefel dosbarthu. Mae hyn yn helpu i egluro'r gwahaniaeth rhwng tebygolrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd ac effaith/difrifoldeb y digwyddiad. Mae'r term 'risg o niwed difrifol' yn cynnwys effaith 'ddifrifol' yn unig, tra bod y term 'risg o niwed' yn fodd o roi'r sylw priodol i'r troseddwyr hynny y mae ymddygiad niweidio ag effaith/difrifoldeb is yn debygol |
| **Trosedd bellach ddifrifol** | Pan fydd unigolyn sy'n destun (or neu a fu'n ddiweddar yn destun) camau prawf yn cyflawni un o nifer o droseddau difrifol (fel llofruddiaeth, dynladdiad neu drais). Mae'n rhaid i'r CRC a/neu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol roi gwybod i'r HMPPS am unrhyw unigolyn o'r fath sy'n cael eu cyhuddo o gyflawni un o'r troseddau hyn. Yna, cynhelir adolygiad gyda golwg ar nodi gwersi a ddysgwyd |
| **Gorchymyn dedfryd ohiriedig** | Dedfryd yn y carchar sy'n cael ei gohirio a'i chynnal yn y gymuned |
| **Rhanddeiliad** | Unigolyn, grŵp neu sefydliad sydd â rhan neu fuddiant uniongyrchol neu anuniongyrchol yn y sefydliad oherwydd ei fod yn gallu effeithio'r sefydliad, neu y gallai gael ei effeithio ganddo. Mae enghreifftiau o randdeiliaid allanol yn cynnwys perchnogion (cyfranddalwyr), cwsmeriaid, cyflenwyr, partneriaid, asiantaethau'r llywodraeth a chynrychiolwyr y gymuned. Mae enghreifftiau o randdeiliaid mewnol yn cynnwys pobl neu grwpiau o bobl yn y sefydliad |
| **Cadwyn gyflenwi** | Darparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd gan y CRC |
| **Y Rhaglen Sgiliau Meddwl** | Raglen grŵp achrededig a gynlluniwyd i ddatblygu sgiliau meddwl troseddwr, i'w helpu i beidio â mynd i helbul |
| **Trydydd sector** | Mae'r trydydd sector yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol (elusennau cofrestredig a sefydliadau eraill, fel cymdeithasau, grwpiau hunangymorth a grwpiau cymunedol), mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydfuddiannol a chydweithfeydd |
| **Through the Gate** | Cynlluniwyd gwasanaethau Through the Gate i helpu'r rhai a ddedfrydwyd i fwy nag un diwrnod yn y carchar i ymgartrefu yn y gymuned unwaith eto ar ôl cael eu rhyddhau, a chael cymorth adsefydlu fel bod modd iddynt weddnewid eu bywydau |
| ***Gweddnewid Adsefydlu*** | Rhaglen y llywodraeth ar gyfer sut mae troseddwyr yn cael eu rheoli yng Nghymru a Lloegr ers mis Mehefin 2014 |

| | |
|---|---|
| **Gwaith di-dâl** | Gall llys gynnwys gofyniad gwaith di-dâl fel rhan o orchymyn cymunedol. Gellid mynnu bod troseddwyr yn gweithio hyd at 300 awr ar brosiectau cymunedol dan oruchwyliaeth. Ers mis Chwefror 2015, cyflawnwyd gwaith di-dâl drwy'r CRC |
| **Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid/Tîm Troseddau Ieuenctid** | Gwasanaeth wedi ei gyllido gan awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc hyd at 18 oed sy'n mynd i helbul gyda'r gyfraith. Maent yn ymchwilio i gefndir unigolyn ifanc ac yn ceisio eu helpu i beidio â throseddu. Maent yn cynnal rhaglenni atal troseddu, yn helpu pobl ifanc os ydynt yn cael eu harestio, yn helpu pobl ifanc a'u teuluoedd yn y llys, yn goruchwylio pobl ifanc sy'n treulio dedfrydau cymunedol ac yn gweithio â phobl ifanc yn y ddalfa |